



Dadansoddiad o gefnogaeth i bobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn y sector cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru

Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif:: Gorffennaf 2009

Dadansoddiad o gefnogaeth i bobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn y sector cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru

Arad Consulting a Dr Jonathan Evans, Prifysgol Morgannwg

Rhagor o wybodaeth

Julie Owens
Swyddog Ymchwil
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Ffôn Tel: 0300 062 5484
E-mail: Julie.Owens@Wales.gsi.gov.uk

Arad Consulting
Enterprise House
126/127 Bute Street
Cardiff Bay
CF10 5LE
029 2044 0552
post@aradconsulting.com
www.aradconsulting.com

Cynnwys

- 1 Cyflwyniad:
- 2 Dulliau
- 3 Diffiniadau
- 4 Troseddwyr Ifanc ac Anghenion Cymorth Dysgu Ychwanegol: Cyd-destun
- 5 Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol
- 6 Asesiad a Darpariaeth Addysg yn y System Cyfiawnder: Egwyddorion Cyffredinol
- 7 Anghenion Cymorth Dysgu Ychwanegol: Plant a Phobl Ifanc
- 8 Negeseuon Allweddol o Ymarfer
- 9 Materion i'w Hystyried
- 10 Cyfeirnodau

Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd Arad Consulting gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gysylltiedig â Dr Jonathan Evans o Brifysgol Morgannwg, i gyflawni *Dadansoddiad o gefnogaeth i bobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn y sector cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru*. Nod yr astudiaeth oedd cyflawni ymchwil ar y cymorth ar gael i bobl ifanc (oedrannau 10-17) ynghyd â'r cymorth oddi wrth ymarferwyr yn y sector.

Mae'r adroddiad hon yn amlinellu darganfyddiadau'r ymchwil, gan dynnu sylw at adolygiad y llenyddiaeth academaidd a pholisi ac ymarfer ymgysylltu â Rhanddeiliaid i ddarganfod barn ymarferwyr yn gweithio gyda'r sector cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

Dulliau a Diffiniadau

Archwiliodd yr adolygiad llenyddiaeth ymchwil ac academaidd a adolygwyd gan gyfoedion ynghyd â dogfennau polisi ac ymchwil allweddol mewn perthynas â:

- beth a gydnabyddir yn ddibynadwy ynglŷn ag AAA y boblogaeth cyfiawnder iechyd;
- adnabod canllawiau arfer da o ran gweithio gyda phobl ifanc a ganddynt AAA.
- adnabod unrhyw faterion hyfforddi

Canolbwyntiodd yr arolwg gwreiddiol ar ymchwil a gynhaliwyd yn awdurdodaeth Lloegr a Chymru ond ehangwyd yr ymchwil llenyddiaeth ar ôl hynny i gynnwys ymchwil a gynhaliwyd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a gwledydd eraill (yn cynnwys rhannau eraill o Ewrop, Canada, UDA, Awstralia a Seland Newydd). Dilynwyd y dulliau safonol ar gyfer adolygiadau llenyddiaeth systematig a chyrrhwyd cronfeydd data academaidd dibynadwy.

Yn dilyn yr adolygiad llenyddiaeth, cysylltodd y tîm ymchwil ag ymarferwyr yn gweithio o fewn y sector Cyfiawnder Ieuenctid drwy ddilyn y dulliau canlynol:

- Trafodaeth grŵp gydag 13 o Reolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT), (ac ymgynghoriad ffon gydag un rheolwr YOT ychwanegol);
- Arolwg ansoddol o staff Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) o fewn Tîmau Troseddau Ieuenctid, derbyniwyd dau ymateb;
- Arolwg ansoddol o reolwyr YOT mewn chwech YOT yn Llundain a ffiniau Cymru, derbyniwyd dau ymateb;
- Ymgynghoriadau ffon ddilynol gyda'r unigolion hyn

Diffiniad presennol AAA gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, lluniodd yr arolwg:

“Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig iddynt”

Darganfyddiadau Ymchwil

Gellir crynhoi materion allweddol i'w hystyried o'r ymchwil yn y telerau canlynol:

- Dylid cyfeirio at AAA yn gysylltiedig ag anghenion cymorth dysgu ychwanegol ehangach. Mae'r dull hwn yn adnabod y gallai ffactorau cymdeithasol ehangach,

yn cynnwys aelodaeth grwpiau cymdeithasol, cael effaith negyddol ar gyflawniad addysgol.

- Er nad oes darlun cadarn, cynhwysfawr a cyfredol yn bodoli, mae digon o dystiolaeth ad hoc (ansoddol a meintiol) i nodi fod cryn gyfran o droseddwyr ifanc yn cofrestru i'r system cyfiawnder ifanc gydag AAA anhysbys.
- Mae AAA nifer o bobl ifanc yn anhysbys neu yn cael eu canfod ar gyfnod hwyr. Mae dau oblygiad ar gyfer system cyfiawnder leuenctid yn symud ymlaen o'r canfyddiad hwn. Yn gyntaf, mae yna achos cryf dros sgrinio pobl ifanc yn gynnar. Yn ail, bydd angen mwy o hyfforddiant/ymwybyddiaeth ymhlith staff addysgu, gweithwyr YOT ac ymarferwyr eraill a ganddynt gyswllt a phobl ifanc..
- Mewn sawl Awdurdod Addysg Leol mae diffyg gallu i roi mynediad i staff YOT at arbenigedd addas (e.e. seicolegwyr addysgol) ynghyd â phwysau ar alluoedd mewn darpariaeth addysgol amgen yn meddwl yn aml nad ydyw troseddwyr ifanc gydag AAA yn cael eu hasesu gan yr LEA yn dilyn adnabyddiaeth o'r angen am hyn gan yr YOT. Fel y cyfryw nid ydyw nifer o bobl ifanc yn cyrchu eu hawliau oherwydd diffyg gallu a darpariaeth gwasanaethau i bobl ifanc gydag AAA.
- Nododd y Rheolwyr Tîm Troseddau leuenctid fod profiadau o'u cleientiaid ble mae staff addysgol (e.e. athrawon cefnogol, ymgynghorwyr gyrfaedd) yn gweithio o fewn YOT a / neu ble mae lefelau da o fynediad i arbenigwyr priodol (e.e. seicolegwyr addysgol) yn bodoli yn fwy positif. Mae'r Tîm Troseddau leuenctid hynny yn tueddu bod yn yr ardaloedd trefol fwy ble mae gan Awdurdod Addysg Leol mwy o allu.
- Mae adran addysg y ffurflen ASSET yn aml ddim yn cael ei gwblhau yn gyson gan staff YOT. Yn ystod trafodaethau, daeth yn amlwg y gwnaeth rheolwyr YOT eu hunain dehongli rhai cwestiynau yn wahanol.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried p'un ai y dylid sefydlu mecanweithiau ar gyfer asesiadau llwybr carlam mewn achosion ble mae staff YOT yn adnabod na chafwyd anawsterau dysgu eu hadnabod cyn i'r person ifanc dod mewn cysylltiad â'r sector cyfiawnder ieuenctid.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried un ai y galli Awdurdodau Addysg Leol lai, gwledig gweithio'n agosach i rannu adnoddau a galluogi gwell lefel o fynediad i arbenigwyr (e.e. seicolegwr addysgol) mewn Timau Troseddau leuenctid llai.
- Dylid rhannu asesiadau o anghenion addysgol rhwng asiantaethau perthnasol. Er enghraifft, mae angen i asesiadau ILA gan Awdurdodau Addysg Leol a Gwasanaethau Cymdeithasol cyrraedd Timau Troseddau leuenctid a sefydliadau gwarchodol.
- Gweler diffyg darpariaeth hyfforddiant i droseddwyr ifanc ar ôl 16 fel sialens arbennig i Dimau Troseddau leuenctid. Sylwodd nifer o reolwyr YOT fod datblygu a chynnal partneriaethau gyda darparwyr hyfforddiant unigol (ac ysgolion) yn aml yn fwy o sialens na gydag Awdurdodau Addysg Leol.
- Gallai diffyg mynediad i Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth briodol, un ai os ydyw'n rhan o ymyriadau gwarchodol neu froceriaeth gan yr YOT, gwaethygu anawsterau addysgol person ifanc.

- Mae dedfryd o gaethiwed yn aflonyddu addysg pobl ifanc. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut i sicrhau fod pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn dychwelyd i mewn i addysg llawn amser neu hyfforddiant cyn gynted ag y bo modd.
- Dylid sicrhau fod angen i ddarpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn y gymuned cael eu trefnu'n agosach gyda gwell cynlluniau pontio i bobl ifanc yn dod allan o'r ddalfa.
- Mae angen fod yna gwell aliniad rhwng gweithwyr addysg ac iechyd, o fewn Timau Troseddau Ieuenctid ac yn gyffredinol, gyda phersonél addysg yn cael ei gefnogi'n agos gan ymarferwyr Gwasanaeth Addysg mewn achosion ble bydd angen eu dyfarniadau proffesiynol (e.e. asesiadau iechyd meddwl neu Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADHD)).
- Dylid rhannu gwybodaeth a chanllawiau arfer da gan arbenigwyr AAA i rieni/gofalwyr a phlant. Ble mae'n addas, dylai ymarferwyr a ganddynt gysylltiad â phobl ifanc derbyn gwybodaeth a chanllawiau.
- Oherwydd y gyfran uchel o droseddwyr ifanc gydag anableddau dysgu ac anawsterau dysgu, dylai ymyriadau cyfiawnder ieuenctid (er enghraifft rhaglenni ymddygiad gwybyddol) cymryd sylw o AAA a/neu arddulliau dysgu addas, gydag asesiadau trafod ar y cyd ac ymyriadau cytûn addas i'r unigolyn.
- Mae ymarferwyr YOT a darparwyr cyflogaeth a hyfforddiant yn ymofyn hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth arbenigol (yn cynnwys gwasanaethau cyfryngu yn yr achosion ble mae lleoliadau yn methu) o ran gweithio gyda phobl ifanc gydag anawsterau dysgu.

Gweddill y ddogfen

Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu'r cefndir i'r ymchwiliad hon (adran 1), yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddir (adran 2), ac yn cyflwyno darganfyddiadau o'r arolwg llenyddiaeth (adrannau 4-7) a'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid (adran 8). Amlinellwyd darganfyddiadau allweddol yn adran 9 gyda chyfeirnodau yn adran 10.

1 Cyflwyniad:

Comisiynwyd Arad Consulting gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gysylltiedig â Dr Jonathan Evans o Brifysgol Morgannwg, i gyflawni Dadansoddiad o gefnogaeth i bobl ifanc gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn y sector cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Nod yr astudiaeth oedd cyflawni ymchwil ar y cymorth ar gael i bobl ifanc (oedrannau 10-17) ynghyd â'r cymorth i ymarferwyr yn y sector.

Mae'r adroddiad hon yn amlinellu darganfyddiadau'r ymchwil, gan gyfeirio at adolygiad llenyddiaeth polisi ac academiaidd ac ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddarganfod barn ymarferwyr yn gweithio o fewn y sector cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth wedi gwneud defnydd o'r themâu a chanllawiau arfer da a daeth allan o chwiliad o'r llenyddiaeth a adolygwyd gan gyfoedion ar y pwnc. Gwnaed cyfeiriad tuag at ddetholiad o werthusiadau perthnasol, adolygiadau a dogfennau polisi a gynhyrchwyd gan y Llywodraeth, cyrff anllywodraethol/ sector gwirfoddol a ffynonellau dibynadwy eraill.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth wedi gwneud defnydd o farn Rheolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) a staff eraill yng Nghymru ynghyd â nifer fach o reolwyr YOT yn Lloegr. Arweiniwyd y prosiect gan grŵp llywio prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

1.1 Nodau ac Amcanion:

Roedd nodau'r ymchwil fel yr amlinellwyd ym manyleb y prosiect fel y ganlyn:

"Nod cynhwysfawr y prosiect yw ymchwilio'r cymorth mae pobl ifanc (oedrannau 10-17) gydag anghenion addysgol arbennig ychwanegol yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yn derbyn i alluogi iddynt gymryd rhan mewn addysg ag hyfforddiant. Mae'r prosiect yn edrych i ymchwilio'r sefyllfa bresennol ynghylch y cymorth a darperir i bobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol ynghyd â'r hyfforddiant mae staff Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru (mewn sefyllfaoedd cymunedol a chadarn) yn derbyn yn yr ardal hon i alluogi iddynt ddarparu cefnogaeth."

Penderfynodd y grŵp llywio yn gynnar yn y prosiect y dylai'r ymchwil canolbwyntio ar gefnogaeth AAA yn hytrach nag ar yr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) i gyd.

Nod yr adolygiad archwilio oedd archwilio'r llenyddiaeth ymchwil ac academiaidd a adolygwyd gan gyfoedion o ran y canlynol:

- i. beth a adnabyddir yn ddibynadwy ynglŷn ag AAA y boblogaeth yn Lloegr, Cymru a - ble'n berthnasol - awdurdodaethau eraill;
- ii. adnabod canllawiau arfer da o ran gweithio gyda phobl ifanc a ganddynt AAA; ac
- iii. Adnabod unrhyw faterion hyfforddi o ran yr ymarferwyr sy'n (a) dosbarthu neu broceri cymorth ychwanegol i bobl ifanc yn y system cyfiawnder

ieuenctid a (b) y personél cyfiawnder ieuenctid hynny sydd â chyswllt rheolaidd a nhw.

Mae'r termau AAA, 'Anghenion Arbennig' ac Anghenion Dysgu Ychwanegol/ Anghenion Cymorth Dysgu Ychwanegol' i gyd yn ymddangos yn y llenyddiaeth wedi'i adolygu. Gan ddaw prif ffocws yr adolygiad ac adroddiad archwilio yw AAA, mae'n angenrheidiol felly i ddiffinio'r termau yn glir, a thrafodir hyn yn Adran 4 yr adroddiad hwn. Sut bynnag, mae'n bwysig gosod y ddadl yn y cyfnod cynnar hwn nad ydy'r ffiniau cysyniadol rhwng y telerau yn gyfan gwbl ddwrglos.

Fel y dangosir uchod, gwnaed cyfeiriad i lenyddiaeth gwerthuso a pholisi oddi wrth ffynonellau dibynadwy eraill. Tra bod hyn wedi achosi dyblygiad mewn rhai deunydd, gobeithiwn y bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu'r themâu allweddol.

2 Dulliau

Fel y nodir yn adran 1, gallai'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon cael eu gwahanu i ddwy ran:

1. Adolygiad Llenyddiaeth
2. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae'r adran hon yn rhoi arolwg o'r ddau ddull mewn mwy o fanylder.

2.1 Adolygiad Llenyddiaeth

Gan gafwyd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd yr adolygiad cychwynnol wedi canolbwyntio ar yr ymchwil a gynhaliwyd yn awdurdodaeth Lloegr a Chymru. Sut bynnag, ehangwyd y chwiliad llenyddiaeth, i gynnwys ymchwil a gynhaliwyd yn yr Alban, Gogledd yr Iwerddon a gwledydd eraill (yn cynnwys rhannau eraill o Ewrop, Canada, UDA a Seland Newydd).

Dilynwyd y dulliau safonol ar gyfer adolygiadau llenyddiaeth systematig a chronfeydd data a chyrrhwyd cronfeydd data academaidd dibynadwy. Mi roedd yr allweddeiriau "Anghenion Addysgol Arbennig" ac "Anghenion Cymorth Dysgu Ychwanegol" wedi derbyn ychydig o 'drawiadau'. Yn y golwg o'r ffaith y mai hon yn derm sydd ond yn ddiweddar wedi mudo o'r geiriadur trafodaethau polisïau i'r maes academaidd, nid ydyw'n syndod nad oes yna nodyn i'w ddarganfod yn y llenyddiaeth a adolygwyd gan gyfoedion.

Mae yna, wrth gwrs y sialens gyfarwydd o adnabod termau allweddol cyfystyr sy'n briodol i'r termau cyfeirio gwreiddiol. Mae felly yn bwysig i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r derminoleg wahanol a gyflogwyd mewn trafodaethau cenedlaethol, disgyblaethol a galwedigaethol gwahanol.

Dylid cymryd gofal sut bynnag, wrth ddehongli darganfyddiadau ac adrodd argymhellion oddi wrth ymchwil a arweiniwyd y tu allan i Gymru a Lloegr, yn enwedig tramor. Bydd angen rhoi adroddiadau priodol i ffactorau cyd-destunol a allai wedi effeithio ar y darganfyddiadau ymchwil. Ni ellir cymryd cyffredinolriad ymchwil a chwblhawyd mewn cyfres benodol o amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol yn ganiataol. O ganlyniad, nid ydyw'n sicr y bydd argymhellion polisi ac ymarfer sy'n ymddangos eu bod yn gweithio mewn un cyd-destun yn gweithio mewn un arall.

Nid ydyw hwn yn meddwl y gellir dysgu dim oddi wrth ymchwil mewn mannau eraill, sut bynnag mae'n wir y bydd angen i ddadansoddiad a gwerthusiad y fath anghenion ymchwil fod yn fwy diwylliannol arwyddocaol, tra dylai trosglwyddiadau polisi ac ymarfer cael eu haddasu i amodau lleol. Gwnaed hyn yn llwyddiannus iawn, er enghraifft, pan ddatblygwyd y rhaglenni ymddygiad gwybyddol gyda throreddwyr yn Ottawa Ottawa (Ross & Fabiano, 1985; Ross, *et al*, 1988; Ross *et al*, 1986) yng nghymoedd hen sir Morgannwg Ganol (Raynor & Vanstone, 1996, 1997, 2001).

2.2 Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid

Yn dilyn cwblhad yr adolygiad llenyddiaeth wreiddiol, cyflogodd y tîm ymchwil ymarferwyr yn gweithio o fewn y sector cyfiawnder ieuenctid drwy'r dulliau canlynol:

Trafodaeth Grŵp gyda Rheolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT)

Hwylusodd y tîm ymchwil trafodaeth 90 munud mewn cyfarfod rheolwyr YOT rheolaidd yng Nghaerdydd yn ystod Chwefror 2009 ble roedd 14 o'r 18 rheolwyr YOT yn bresennol. Roedd y cyfarfod yn cynnwys amrywiaeth o faterion yn cynnwys adnabod pobl ifanc gydag AAA, darpariaeth addysg a hyfforddiant, hyfforddiant staff a datblygiad proffesiynol, partneriaethau rhwng YOTs ac asiantaethau eraill (statudol a gwirfoddol), y cysylltiadau rhwng materion cystodaeth, cymuned a gallu.

Arolwg ansoddol Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) o fewn Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT)

Cafwyd cyfres fer o gwestiynau eu cylchlythyru i nifer fach o staff ETE mewn Tîmau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Derbyniwyd dau ymateb oddi wrth staff ETE.

Arolwg ansoddol o reolwyr YOT mewn chwe Tîm Troseddau Ieuenctid yn Lloegr

Cafwyd cyfres fer o gwestiynau eu cylchlythyru i chwe rheolwr YOT yn Lloegr. Derbyniwyd dau ymateb oddi wrth Dimau Troseddau Ieuenctid yn Lloegr.

Ymgynghoriadau teleffon Dilynol gydag unigolion

Derbyniodd nifer o reolwyr YOT nad allent fynychu'r cyfarfod rheolwyr YOT, ymgynghoriad ffon ynghyd â sawl cynrychiolydd bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

3 Diffiniadau

3.1 Diffinio anghenion addysgol arbennig

Mae diffiniadau a labeli diagnosteg bob amser yn cael ei herio gan ymchwilwyr, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr bob amser. Dylid, felly, sylweddoli bod y rhan fwyaf o labeli asesu yn ymglymu elfen o ymgynghoriad cymdeithasol a ellir ei dadlau.

Cyn 1981, ffocws AAA oedd ar roi darpariaeth addysgol i blant gydag anableddau. Yn gyffredinol roedd yna deuddeg categori anabledd cydnabyddedig: dall, rhannol ddall, byddar, rhannol fyddar, â nam corfforol, gwanlyd, ac yn addysgol isnormal (cymedrol), addysgol isnormal (difrifol), epileptig, heb ymaddasu, diffyg lleferydd ac awtistig. Argymhellodd The Warnock Committee (Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, 1978) y dylid dileu'r categorïau anabledd amrwd hwn a'u hamnewid gyda phroffiliau manwl o anghenion addysgol yn seiliedig ar asesiadau i'r unigolyn. Y bwriad oedd symud i ffwrdd o wahaniaethau llym rhwng yr anabl a'r person nad yw'n anabl. Yn hytrach, gwelwyd AAA, fel petai ei bod ar gontinwm gydag anghenion cyffredin.

Y diffiniad presennol o AAA a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw:

“Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu y bydd yn angenrheidiol gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blant anhawster dysgu:

- a) os ydynt yn cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff y rhan fwyaf o blant yr un oed; neu
- b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg leol.
- c) os ydynt o dan oed ysgol orfodol a'u bod yn dod o fewn y diffiniad yn (a) neu (b) uchod neu y byddent yn gwneud hynny pen a wneid darpariaeth addysgol arbennig are u cyfer.

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

- a) i blant dwy oed neu drosodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir fel rheol ar gyfer plant o'u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALI yn yr ardal, ar wahân i ysgolion arbennig, neu'n wahanol mewn rhyw ffordd arall i'r ddarpariaeth honno.
- b) i blant o dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

Gweler Adran 312, Deddf Addysg, 1996.
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004: 1, 1.3)

Diffiniwyd Anabledd, yn y cyfamser yn y ddau statud perthnasol fel y canlynol:

“A child is disabled if he is blind, deaf or dumb or suffers from a mental disorder of any kind or is substantially and permanently handicapped by illness, injury or congenital deformity or such other disability as may be prescribed.”

Deddf Plant 1989, Adran 17 (11) (Dyfynnwyd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004: 2, 1.3)

“A person has a disability for the purposes of this Act if he has a physical or mental impairment which has a substantial and long-term adverse effect on his ability to carry out normal day-to-day activities.”

Deddf gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, Adran 1(1), (Dyfynnwyd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004: 2, 1.3).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi pedwar ardal eang o AAA: cyfathrebu a rhyngweithio; gwybyddiaeth a dysgu; datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol; ac anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004: Pennod 7) Sut bynnag, pwysleisiwyd y pwynt canlynol:

“Nid ydyw'r canllawiau hyn yn tybio bod yna categorïau pendant o anghenion addysgol arbennig.”

(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004: 85, 7.52)

Yn union fel nad oes yna categorïau anghenion addysgol sy'n 'gymhleth neu'n anodd eu trin' ar hyn o bryd, adnabyddir bod grwpiau cymdeithasol arbenigol dan anfantais neu'n cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn o fewn ein system addysg. Gallai hyn fod o ganlyniad i brosesau cymdeithasol cymhleth ond grymus. Yn dilyn y dadansoddiad hwn daeth y cysyniad Anghenion Arbennig. Rhai blynyddoedd yn ôl, er enghraifft, mi wnaeth Deforges (1997) amlygu sefyllfa ddifreintiedig plant o gymunedau ethnig lleiafrifol. Er nad oedd yna awgrymiad eu bod yn profi anawsterau dysgu, roedd yna faterion a oedd angen eu hystyried ac, os na hystyrient, gallant ffurfio rhwystrau i ddysgu. Roedd y rhain yn cynnwys materion fel iaith, diwylliant, presenoldeb hiliaeth amlwg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mabwysiadwyd dadansoddiad rhyngweithiol o anghenion arbennig gan Frederickson & Cline. Mae'r enghraifft ganlynol yn esbonio'u safbwynt:

“Bydd pa un ai y byddai plant yn cael eu barnu i gael lefelau digonol o gymhwysedd cyfathrebol yn yr ystafell ddosbarth yn dibynnu ar y cyfleoedd a chawsant i ddatblygu'r sgiliau perthnasol mewn cyd-destunau eraill ac ar sut y trefnwyd digwyddiadau ystafell ddosbarth i alluogi neu analluogi eu cyfranogiad.”
(Frederickson & Cline, 2002: 45)

Adnabyddir hefyd, wrth gwrs, y gallai perchen i grwpiau cymdeithasol arbennig cynyddu'r debygolrwydd o blant sy'n methu â chadw fyny gyda chyraeddiadau addysgol eu cyfoedion. Yn wir, mewn rhai achosion, gallant ddatblygu AAA o ganlyniad. Mae 'Plant mewn Angen' a rheini gyda chefnidir mewn gofal cyhoeddus yn ddim ond dau grŵp o bobl ifanc a allai fod mewn perygl o symud o'r categori 'anghenion arbennig' i 'Anghenion Addysgol Arbennig'.

Cydnabyddir hefyd, mewn achosion ble mae plant a ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig hefyd yn aelodau o grwpiau cymdeithasol a ganddynt 'anghenion arbennig' (cymunedau thing lleiafrifol, teithwyr, ceiswyr lloches, a.y.b.), yna bydd angen targedu'r

‘anghenion arbennig’ hyn mewn tandem gyda’r Anghenion Addysgol Arbennig mwy penodol a gafwyd eu canfod. Mae angen i berthynas deinameg a rhyngweithiol rhwng AAA ac ‘anghenion arbennig’ cael ei ddeall a’u hadlewyrchu mewn polisi ac ymarfer.

Mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r diffiniad cynhwysol ‘Anghenion Dysgu Ychwanegol’ yn erbyn y cefndir uchod. Bwriadwyd i fod yn gynhwysol o’r amrywiaeth o anghenion ychwanegol ac amgylchiadau arbennig a brofwyd gan bobl ifanc. Mae dysgwyr sydd yn ymofyn cefnogaeth ychwanegol yn cwmpo mewn i ddau gategori eang: (i) rheini sydd angen cymorth oherwydd eu hamgylchiadau; a (ii) rheini a “...ganddynt anhwylder neu gyflwr hirdymor” (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006: Adran 1, 1.6).

Wrth gwrs, Mae’n berffaith bosibl y bydd rhai pobl ifanc yn cwmpo i mewn i’r ddau gategori yn gydamserol. Er hynny, mae hwn yn wahaniaeth cysyniadol defnyddiol i’n dibenion ni. Mae’n amlygu’r ffaith y gallai rhai pobl ifanc yn dod ag anhwylderau neu gyflyrau hirdymor a fydd angen i’r system cyfiawnder ieuenctid a’u partneriaid cyfeirio atynt, eu hamgylchiadau ehangach hefyd a ddylai fod yn darged yr ymyriad.

Drwy ledi diffiniad Anghenion Dysgu Ychwanegol tu hwnt i baramedrau AAA, cliriwyd y ffordd i ymyrryd yn fwy uniongyrchol gyda ffactorau risg deinameg mewn bywyd teuluol a chymunedol, ynghyd â phyrth perthnasol eraill. Hefyd, mae yna gydnabyddiaeth ymhlyg fod anghenion dysgu ychwanegol pobl ifanc weithiau yn ganlyniad uniongyrchol o fecanweithiau sefydliadol ac ymarferion proffesiynol.

Felly, er enghraifft, mae’r Llys Ieuenctid sy’n gosod dedfryd o gaethiwed hefyd yn creu cyfres o ‘anghenion dysgu ychwanegol’ newydd a chymhleth i’r person ifanc cysylltiedig. Nid ydyw hwn yn argymhell na fydd yna amseroedd pan fydd y fath dedfryd yn briodol, ond efallai fod cymhwysiad y diffiniad ehangach hwn yn awgrymu’r angen dros adlewyrchiad beirniadol mwy gan ymarferwyr ar eu prosesau penderfynu proffesiynol a dulliau cyfundrefnol.

Cedwir y term ‘AAA’ er mwyn cyfeirio at y dysgwyr hynny a ganddynt “*anawsterau dysgu difrifol, cymhleth a/neu benodol fel y gosodwyd o fewn y Ddeddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer AAA Cymru*” (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006: Adran 1, 1.7). Wedi dweud hynny, mae AAA nawr yn cynrychioli is gategori Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006: Adran 2, 1.3) wedi adnabod y prif grwpiau dilynol o blant a phobl ifanc a ganddynt anghenion dysgu ychwanegol:

- | | |
|--|--|
| - plant o deuluoedd mewn amgylchiadau anodd; | - rheini sy’n cael eu gwarchod gan yr awdurdod lleol |
| - disgyblion gydag AAA; | - disgyblion gydag anghenion meddygol; |
| - disgyblion gydag anabledd; | - rhieni ifanc a merched ifanc beichiog; |
| - rhai disgyblion lleiafrifoedd ethnig, yn cynnwys y rheini yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL); | - troseddwyd ifanc; |
| - Plant ffoaduriaid yn ceisio lloches | - gofalwyr ifanc; |
| - sipsiwn a theithwyr; | - disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol; |
| - plant gweithwyr mudol; | - disgyblion sy’n gwrthod mynd i’r ysgol neu â ffobia am fynd i’r ysgol; a |
| - mwy o ddisgyblion talentog a galluog; | - disgyblion sy’n perfformio neu a ganddynt gyflogaeth |

Cydnabyddir bod y rhestr hon - sydd, gyda llaw, heb ei hystyried i fod yn drwyadl - yn cynnwys poblogaeth eang ac amrywiol o bobl ifanc. Gan y mae'n debygol y bydd pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid yn cael ei dynnu o'r categorïau anghenion dysgu ychwanegol a grybwyllwyd uchod, gellir dadlau y dylai adolygiad llenyddiaeth systematig felly archwilio'r ardaloedd hwn i gyd. Er hynny, oherwydd y cyfyngiadau amser ac adnoddau, cafwyd y categori AAA ei flaenoriaethu yn y chwiliad llenyddiaeth.

3.2 Adnabod anghenion addysgol arbennig

Wedi atgyfeiriad at Dîm Troseddau Ieuencid, gwneir cais i'r darparwr addysg ar gyfer adroddiad addysg ar berson ifanc o oedran ysgol statudol. Mae'r adroddiadau hwn yn cynnwys gwybodaeth ar anghenion dysgu ychwanegol pobl ifanc, yn cynnwys os oes ganddynt Angen Addysgol Arbennig (AAA) canfyddedig a / neu ddatganiad o AAA. Mewn achosion ble na canfuwyd AAA, mae'r broses o ddarparu cymorth priodol yn ddibynnol ar weithio effeithiol rhwng y Tîm Troseddau Ieuencid a phartneriaid.

"Ambell waith efallai byddwn yn dod ar draws person ifanc na canfuwyd fod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig am resymau niferus. Yn aml mae gan y bobl hyn hanes o addysg aflonyddus ac wedi colli allan ar asesiad ffurfiol. Mewn ymateb i hyn byddwn yn cysylltu â'r Awdurdod Addysg Leol am ddarpariaeth a chymorth."

Gweithiwr proffesiynol, Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, De Cymru

"Canfuwyd fod gan nifer o bobl ifanc problemau ymddygiad ac mae yna gynlluniau yn ei le i ysgolion rheoli eu hymddygiad, sut bynnag ni chafwyd eu canfod yn benodol gydag Anghenion Addysgol Arbennig. Efallai dylid rhoi mwy o bwyslais ar y bobl ifanc hyn i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth addas."

Gweithiwr proffesiynol, Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, De Cymru

4 Troseddwy'r Ifanc ac Anghenion Cymorth Dysgu Ychwanegol: Cyd-destun

Cyn crynhoi'r themâu allweddol sy'n ymddangos o'r llenyddiaeth, efallai y dylid gosod y pwnc o dan ystyriaeth mewn cyd-destun. Mae'r ffaith fod 'troseddwy'r ifanc' yn fformiwleiddio un o'r grwpiau a chanfuwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2006, Adran 2,13) fel derbynyddion cymorth addysgol ychwanegol posibl yn meddwl fod y rheini yn amodol ar ymyriad a goruchwyliaeth y system cyfiawnder ieuencid yn ymofyn asesiad mwy cynhwysfawr a chwaethus o'u hanghenion addysgol na sydd ar hyn o bryd.

Tra bod ASSET/ONSET¹ yn darparu gwybodaeth ar AAA, ni chafwyd gwybodaeth fanwl ar anghenion cymorth addysgol ei gasglu ar lefel Cymru neu Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Hefyd, bu pryderon fod yr asesiadau a arweinir ar lefel ymarferwr â diffyg trachywiredi diagnosteg ofynnol. Yn wir, mewn rhai achosion mae'n ymddangos fel petai yna dystiolaeth i awgrymu fod y fath o asesiadau yn cael eu cwblhau yn anghyson ac annigonol, gyda'r canlyniad na canfuwyd nifer o anghenion cymorth addysgol yn iawn (Baker *et al*, 2003; EdComs, 2008). Nid beirniadaeth o'r staff o fewn Timau Troseddau Ieuencid ydyw hwn, ond mae'n amlygu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol ymhlith y personél cyfiawnder ieuencid sy'n cynnal asesiadau yn rheolaidd (ASSET, ONSET ac adroddiadau cyn dedfrydu).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006: S2, 13.2) yn gosod y ddadl fod troseddwy'r ifanc yn aml yn profi nifer o anafteision, yn cynnwys gwaharddiad o'r ysgol, triwantiaeth, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, camddefnyddio sylweddau a/neu gefndir mewn gofal cyhoeddus. Yn yr un ddogfen dyfynnwyd arolwg ble y cofnodwyd y fath anafteision difrifol yn y boblogaeth o'r rheini o dan yr oedran 18 mlwydd oed yn y ddalfa.

Cyflawnwyd corff ymchwil empirig nodedig i adnabod ffactorau risg rhagfynegol ymddygiad troseddol, ynghyd â ffactorau amddiffynnol ac ymyraethau sy'n debyg o hyrwyddo ystwythder (Cymunedau sy'n Gofalu, 1997 & 2005; Crowe *et al*, 2004; Farrington 1996 & 2007; Farrington & Welsh, 2007; Farrington *et al*, 2006; Harachi *et al*, 2003; Utting & Vennard, 2000; Hawkins *et al*, 2005; Utting, 1999; West & Farrington, 1973), er dylwn gyfeirio at y ffaith bod y tybiaethau methodolegol ac epistemoleg ar beth mae cymaint o'r gwaith yn gorwedd wedi bod yn agored i sialensiau perthnasol o'r rheini na fyddent yn sicr yn dadlau'r effaith materol ar daflwybrau pobl ifanc (Achos, 2007; Haines & Drakeford, 1998; Pitts, 2000 a 2001).

Mae'n ddefod i gyflwyno ffactorau risg o fewn cynllun sy'n adnabod cyfres gymhleth o gydberthnasau deinamig: unigol (gorfywiogrwydd, byrbwylltra, diffyg gwybyddol/heb ddatblygu digon, deallusrwydd isel); teulu (tlawd/llym/anghyson/rhiant emosiynol 'oer', amhariad teulu, gwrthdaro teuluol, hanes teuluol o weithgaredd troseddol); ysgol (cyflawniadau isle, triwantiaeth/ datgyweddad); a chymuned (incwm isle, cymdogaeth troseddu uchel).

¹ Mae Asset yn darparu fframwaith strwythurol, cyffredin ar gyfer asesu pobl ifanc yn gysylltiedig a'r system cyfiawnder iechyd. Asesiad safonol ydyw o'r ffactorau a gyfranwyd tuag at y berson ifanc yn troseddu. Mae fframwaith cyfeirio ac asesu Onset yn defnyddio meysydd a sgorio tebyg i Asset ond defnyddir mewn ymyriadau dewisol addas i'r rheini a canfuwyd eu bod angen ymyrraeth cynnar.

Mae profiad person ifanc o addysg yn ymddangos i fod yn gysylltiol iawn â rhagweld y debygolrwydd o ymddygiad troseddol yn y dyfodol. Mae dangosyddion yn cynnwys: cyrhaeddiad isel, yn dechrau yn yr ysgol gynradd (Cymunedau sy'n Gofalu, 2005; Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006); llythrennedd a rhifedd gwael (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2002; Ecotec, 2001); perthnasau gwael gydag athrawon wedi eu mynegi mewn ymddygiad trafferthus mewn ysgolion cynradd (Golden, *et al*, 2002; Spielhoffer, *et al*, 2003); triwantiad ac absenoldebau eraill heb awdurdod (Y Comisiwn Archwilio, 1999; Berridge, *et al*, 2002; Graham, 1998; Uned Allgáu Gymdeithasol, 2002); gwaharddiad o'r ysgol (Y Comisiwn Archwilio, 1996; MORI, 2004); a diffyg ymrwymiad positif gyda'r ysgol (Flood-Page *et al*, 2000).

Er gwaethaf gwerth y data a gynhyrchwyd gan yr ymchwili empirig a dadansoddiwyd uchod, rhaid ymarfer gofal o ran dehongliad. Mae'n hawdd cwmpo i'r fagl o gymysgu achosion gydag effeithiau. Fel y nododd Farrington:

"Mae'n anodd penderfynu os ydyw unrhyw ffactor risg a rhoddir yn ddangosydd (symptom) neu'n achos bosibl o drosedd. Er enghraifft, ydy yfed trwm, triwantiad, anghyflogaeth, ac ysgaru yn symptomau o bersonoliaeth anghymdeithasol, neu a ydynt yn achosi pobl i ddod yn fwy anghymdeithasol?" (Farrington, 2007: 605)

Mae'n ymddangos bod yna rhai tystiolaeth i awgrymu, serch hynny, y gallai byw mewn cymdogaeth troseddol uchel, incwm isel gorlethu ymdrechion gorau rhieni a gofawyr. Beth sy'n ymddangos yn eglur, sut bynnag, yw y dylid targedu ymyraethau ar y pedwar lefel a dynodwyd eisoes: unigol; teulu (yn cynnwys darpariaeth dan oed ysgol a chefnogaeth rhieni); addysg; a chymuned. Bu dadl, wrth gwrs, y dylid cyfeirio at ddosbarthiad incwm ac anghydraddoldeb cymdeithasol yn y tymor hir (Young, 1999).

Mae Tonry & Farrington (1995) yn cymeriadu'r pedwar prif strategaeth atal yn y telerau canlynol: *datblygiadol* (targedu ffactorau amddiffynnol unigol); *cymunedol* (cynlluniwyd i wella ansawdd bywyd i deuluoedd a chymdogaethau drwy sefydliad rhannu adnoddau a hyrwyddiad grwpiau lleol cefnogol, clybiau a chymdeithasau); *sefyllfa* (lleihad cyfleoedd i gyflawni troseddau drwy wella diogelwch a chynlluniau lleoedd cyhoeddus); a *chyfiawnder troseddol* (yn cynnwys rhan fwyaf, er nid yn gyfan gwbl, mesurau adsefydlu).

Y gwrthwynebiad yn erbyn ymyraethau cyfiawnder troseddol adsefydlu, yn enwedig pan ydynt yn gysylltiedig â charchariad, yw bod yna perygl cysylltiedig o gyflymu llwybr person ifanc i ddieithrio cymdeithasol a throseddau pellach (Muncie, 2004, 229-44; Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2004, Yr Uned Allgáu Cymdeithasol, 2005). Gallai caffaeliad cofnod troseddol cynrychioli rhwystr arswydus i atgyfaniad person ifanc i mewn i gymdeithas ehangach. Gallai dedfryd o gaethiwed, ymhellach, gwanhau cysylltiadau a'r teulu, cymuned, ysgol, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr. Gallai'r cwricwlwm cudd yn hyd yn oed y systemau gwarchod a'u rheolwyd orau hefyd yn cymynroddi'r troseddwr newydd repertoire ehangach o sgiliau troseddol, cyfres o agweddau sy'n gefnogol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a mynediad i rwydwaith ehangedig o gyfoedion gwyrddredig (Goldson, 2002; Williamson, 2004, 67-98).

Mae Stephenson (2007) yn enwi tair ffordd ymhle mae gwarchodaeth yn ymddangos fel ei bod yn lleihau ffactorau amddiffynnol a chynyddu peryglon. Yn gyntaf, mae'n gorfodi ac erydu sgiliau gwneud penderfyniadau a chynllunio. Yn ail, mae'r addysg a darperir yn cymryd rhan mewn amgylchedd mor annormal mae eu ceisiadau dilynol o werth

cyfyngedig. Yn olaf, mae cael gwared â phobl ifanc o addysg ffurfiol - hyd yn oed mewn achosion ble mae'r cysylltiad hynny yn eithaf gwanedig - yn achosi mwy o aflonyddwch a synnwyr o afleoliad cynyddol. Mae hyn yn gwneud ailgysylltu'r person ifanc gyda darpariaeth addysgol ffurfiol ar ei rhyddhad. Mae'n bosibl y bydd ymyraethau Cyfiawnder Troseddol, yn cynnwys dedfryd o gaethiwed, weithiau yn angenrheidiol. Er hynny, bydd y dystiolaeth yn awgrymu, ei bod yn anodd eu darparu heb roi pobl ifanc mewn perygl pellach o droseddu (Goldson, 2002 & 2006; Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2004) ac felly yn gwneud y dasg o adferiad a chynhwysiad cymdeithasol hyd yn oed yn fwy o sialens.

Tra bod yr ymchwil a disgrifiwyd uchod yn helpu ni i adeiladu darlun o rhyng-gysylltiad anfanteision cymdeithasol personol, teulu, cymdogaeth ac anfanteision cymdeithasol eraill sy'n dylanwadu ar lwybrau pobl ifanc i ymddygiad troseddol, mae'n werth nodi na ellir esbonio'r holl droseddau ieuencid yn y fath termau. Mae trafodaethau polisi ynglŷn â throseddau gan bobl ifanc, a'r rhan fwyaf o'r ymchwil academaidd ar beth y seiliwyd y trafodaethau, yn tueddu'r cysyniad o 'droseddu' gyda 'collfarnau'. Mae'r adnabyddiaeth o ffactorau risg yn seiliedig yn gyfan gwbl ar droseddwyd a dyfarnwyd yn broblemus a dylid eu nodi. Mae astudiaethau hunan-gofnod yn dangos fod y gwir lefel o droseddu ymhlith pobl ifanc yn uwch na'r hynny a gofnodwyd mewn ystadegau trosedd swyddogol (Belson, 1975; Rutter & Giller, 1983; Anderson *et al*, 1994; Graham & Bowling, 1995; Flood-Page *et al*, 2000).

Serch hynny, dylid nodi, fod y math hwn o arolygon fel arfer yn canolbwyntio ar boblogaethau a'u hystyrir eu bod 'mewn perygl' neu'n 'tramgwyddus'. O ganlyniad, mae gwir faint a phatrwm troseddau yn y boblogaeth gyffredinol yn aros yn anhysbys. Yn ddiddorol, mae'n werth nodi nad oes yna wahaniaeth arwyddocaol mewn dosbarth cymdeithasol yn nhermau cyfraddau troseddau ieuencid, gyda phobl ifanc canol yr un mor debygol o gyflawni trosedd a'u cymheiriaid dosbarth gwaith (Anderson, *et al* 1994; Graham & Bowling, 1995). Dangosodd un arolwg (Panel Aelwydydd Prydain, 2001) bod pobl ifanc yn tarddu o gartrefi incwm uwch ychydig yn fwy tebygol o gyflawni troseddau.

Mae gan bob methodoleg, wrth gwrs, eu cryfderau a'u gwendidau ac nid ydy astudiaethau hunan-adrodd yn wahanol. Tra dylai astudiaethau hunan-adrodd gyda phobl ifanc cael eu hystyried gyda gofal, yn rhannol oherwydd y bydd rhai ymatebwyr yn dueddol o orliwio eu hymnglymiad mewn trosedd, mae'r arolygon hyn yn amlygu natur lluniedig gymdeithasol trosedd ac felly'n codi cwestiynau ynglŷn â phwy sydd fwyaf tebygol o gael ei chanfod, ei harestio a'i erlyn. Tra dylid ystyried yr amgylchiadau heriol iawn ble y cydnabyddir nifer o droseddwyd ifanc, mae'r un mor bwysig i gydnabod fod yna pobl ifanc eraill mewn achosion gwahanol.

Gellir Tybio, am y rhan fwyaf, fod y troseddwyd heb eu darganfod yn ymatal rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a troseddol am amrywiaeth o resymau (aeddffediad, trawsnewidiad llwyddiannus i addysg bellach/uwch, cyflogaeth, perthynas arwyddocaol, a.y.b.) Sut bynnag, am resymau methodolegol nid oes tystiolaeth o hynny. Mae'n bosibl bod y ffaith bod prosesau gwahardd y system cyfiawnder troseddol wedi methu a chyffwrdd eu bywydau hefyd yn ffactor. Yn y pen draw, mae hyn yn achos i'r dychymyg.

5 Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol

5.1 Niferoedd gydag AAA

Y ffynhonnell allweddol o wybodaeth ar y plant a'r bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r sector cyfiawnder ieuenctid yw'r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflenni ASSET / ONSET a gynlluniwyd i adnabod problemau penodol sy'n gwneud i'r person ifanc troseddu. Mae'r ffurflenni yn cynnwys cwestiynau ar ba un ai a oes gan berson ifanc datganiad o AAA ochr yn ochr â chwestiynau ar gyrhaeddiad ac un ai a oedd person ifanc yn ddioddefwr bwlio.

Gyda golwg ar AAA sut bynnag mae'r canllaw ASSET yn datgan os oes yna bryderon posibl ynglŷn ag AAA, ond ddim adnabyddiaeth bendant gan seicolegydd neu ymarferwr proffesiynol, dylai'r Timau Troseddau Ieuenctid ticio 'na' i'r cwestiwn o 'a gafwyd AAA ei chanfod'. Mae yna wagle, sut bynnag, i ysgrifennu sylwadau.


Heblaw hyn mae ffurflenni atgyfeirio ONSET yn gofyn a ydyw person ifanc yn profi anawsterau gyda'r lefel o waith ysgol bresennol yn ychwanegol at gael datganiad AAA. Mae'r flaenorol yn agored i ddehongliad. Yn yr un modd mae ffurflenni asesu ONSET yn gofyn i ymarferwyr i roi gwerth ar y cydgysylltiad rhwng unrhyw AAA a'r debygoliaeth o droseddu. Gofynnir hefyd i bobl ifanc hunanasesu anawsterau sgiliau sylfaenol fel rhan o'r 'Over to YOU!'²

Tra cyflawnwyd dadansoddiad yn flaenorol ar y dychweliadau hyn ar lefel Lloegr a Chymru (Baker et al 2003, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2002b), nid ydy'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn casglu'r data cyfanred o'r dychweliadau ASSET ar y nifer o bobl ifanc gyda AAA yng Nghymru yn rheolaidd ar hyn o bryd. Fel y cyfryw nid oes yna amcangyfrif diweddar o'r niferoedd o bobl ifanc yn y sector cyfiawnder ieuenctid gydag AAA.

Fel rhan o werthusiad ASSET yn 2002, darganfuwyd dadansoddiad o ffurflenni asesu ASSET fod gan 25 y cant o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid AAA a bod 60% o'r rhain e.e. 15%, wedi derbyn datganiadau ffurfiol³ (Baker et al 2003, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2002b). Yn y boblogaeth gyffredinol mae gan 3.4% o blant yng Nghymru datganiadau AAA. Sut bynnag, mae yna amrywiaethau mawr rhwng Awdurdodau Addysg Lleol ble mae ffigurau yn amrywio o 1.6% i 5.1% (Estyn 2003).

² Holiaduron hunan-asesu yw Over to YOU! sy'n ffurfio rhan o fframwaith cyfeirio ac asesu ONSET. Mae yna fersiynau i Rhieni/Gofalwyr ac i Blant a Phobl Ifanc.

³ Pan mae athro dosbarth neu'r Cydgysylltydd SEN (SENCO) yn canfod plentyn gydag Anghenion Addysgol Arbennig, mae yna ymyrraeth i helpu'r plentyn datblygu – Gweithredu gan yr Ysgol; mae'r lefel nesaf, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, yn rhoi lefel cefnogaeth uwch. Os oes angen ragor o gymorth ar blentyn efallai bydd angen datganiad anghenion addysgol arbennig arnynt ac yn dilyn asesiad statudol, bydd yr awdurdod addysg lleol yn cynhyrchu Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer y plentyn (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004).



Mae amcangyfrifon yn broblemus, hyd yn oed yn y boblogaeth ysgol gyffredinol, ac mae Estyn yn adrodd nad ydyw'r data ar AAA mewn ysgolion sy'n dod o Gyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) bob amser yn gywir ac yn aml yn amwys. Cofnodwyd fod gan bron i un pumed o bob cofnod AAA (tua 16,000 disgybl bob blwyddyn) anghenion 'eraill', er enghraifft, sy'n ei gwneud hi'n amhosibl adnabod natur eu hanghenion (Estyn 2007). Mae Estyn hefyd yn adrodd fod gan 17% o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd AAA. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r rhain datganiad o AAA (Estyn 2008b).

5.2 Mesur ar Lefel Lleol

Yn ystod ymgynghoriadau ar gyfer yr astudiaeth hon, roedd yn bosibl i rai ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid darparu gwybodaeth bellach ar y niferoedd o bobl ifanc a ganddynt ddatganiadau o AAA wedi'u cynnwys mewn adroddiadau addysg a darparwyd iddynt gan ddarparwyr addysg. Er enghraifft, sylwodd un Tîm Troseddau Ieuenctid De Cymru fod tua thraean (19 allan o 58) o'r adroddiadau ar bobl ifanc a gyfeiriwyd atynt yn yr hydref 2008 wedi cofnodi fod y person ifanc wedi canfod AAA. O'r rhain, roedd gan 7 ohonynt ddatganiadau AAA, cofnodwyd 5 ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SA+), 2 ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol (SA), ac nid oedd gan 5 ohonynt lefel cofnodedig. Heblaw hyn, cofnododd yr YOT fod gan y mwyafrif o'r gweddill materion penodol wedi'u cofnodi yn eu hadroddiadau er enghraifft anawsterau llefaru ac iaith, sgiliau cyfathrebu gwael, problemau ymddygiad, presenoldeb a bwlio.

Sylwodd gweithiwr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) yn ne Cymru y gallai darparwyr addysg hefyd darparu'r fath yma o wybodaeth yn ymwneud ag AAA ac yn aml, mae'r dystiolaeth ar ledaeniad AAA ymhlith pobl ifanc yn anecdotaidd yn hytrach nag ansoddol.

“Gellir hefyd darparu gwybodaeth ynglŷn ag anghenion addysgol/diffyg cyrhaeddiad y person ifanc sy'n arwyddocaol ond ddim eto wedi derbyn datganiad o ganlyniad”

“Ar sail achos unigol mae yna tystiolaeth anecdotaidd ac ansoddol fod gan niferoedd arwyddocaol o bobl ifanc dan oruchwyliaeth Timau Troseddau Ieuencid Anghenion Addysgol Arbennig”.

Gweithiwr proffesiynol, Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, De Cymru

Sylwodd y Timau Troseddau Ieuencid Saesneg a darparodd tystiolaeth i'r tîm, fod gan gyfran arwyddocaol o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid graddfeydd gweithredu ysgol neu ddatganiadau AAA. Sylwodd yr YOTs fod ymarferwyr yn aml yn cyfarfod a phobl ifanc anhysbys gydag anghenion.

“Yn nhermau data ansoddol, rydym yn dod ar draws pobl ifanc mewn Timau Troseddau Ieuencid a ganddynt sgiliau sylfaenol gwael ac weithiau ddim gallu ysgrifennu eu henwau neu braidd darllen. Er nad ydy'r rhain yn ffigurau enfawr, maent yn ddigon i achosi pryder difrifol”

Rheolwr YOT, Lloegr

5.3 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r Comisiwn Archwilio, yn ei adolygiad o Gyfiawnder Ieuencid yn 2004, yn rhybuddio y ceir y rhan fwyaf o gleientiaid YOT anawsterau gyda'u haddysg ac mae Estyn (2005, 2006) yn egluro y cafwyd nifer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid profiadau gwael yn yr ysgol neu a ganddynt hanes o bresenoldeb gwael neu wedi'i wahardd o'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, ganddynt sgiliau sylfaenol gwael ac yn ei ffeindio'n anodd dod ymlaen gyda phobl eraill. Mae hefyd yn nodi fod nifer o bobl ifanc wedi cael cysylltiad gyda'r gwasanaeth cymorth ymddygiad lleol. Er enghraifft, cafwyd 54% o'r bobl ifanc yn derbyn addysg o'r gwasanaeth addysg amgen yng Nghonwy ar adeg yr arolwg ei gydnabod gan yr YOT (Estyn 2005, Estyn 2006).

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid sydd yn cynnwys cyfweiliadau gyda sampl o 100 o bobl ifanc sydd naill ai yn amodol ar garchariad a gorchymyn hyfforddiant neu ystyriwyd yn risg i droseddu ac yn gysylltiedig â rhaglenni cynhwysiad ifanc yn dangos fod dros ddwy ran o dair wedi bod mewn gofal awdurdod lleol ar un adeg. Canfuwyd bod 45% yn driwantiad a bod gan bron treian anawsterau iechyd meddwl tra bod dros hanner wedi bod yn ddibynnol ar sylwedd. At hynny roedd gan fwy na treian o boblogaeth y sefydliad troseddwr ifanc o oedran ysgol orfodol oedran darllen o saith neu lai (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 2005).

Dangosodd dadansoddiad ASSET 2002 fod un mewn dau yn tangyflawni mewn ysgolion a bod angen cymorth darllen ac ysgrifennu ar un mewn tri (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 2002b). Mae problemau addysgol troseddwr ifanc difrifol a chysyn hyd yn oed yn fwy. Mae oedran darllen gyfartalog pobl ifanc sydd yn cychwyn Rhaglen Goruchwyllo ac Arolygu Dwys pum mlynedd o dan eu hoedran cronolegol (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

2006a) ac mae gan dros hanner y bobl ifanc sy'n cael eu cymryd i'r ddalfa, y rhan fwyaf ohonynt dros 15, oedran darllen o dan lefel plentyn¹¹ mlwydd oed cyfartalog. (Y Comisiwn Archwilio).

Mae'r data, er ei bod yn brin, ar sail AAA ymhlith troseddwy'r ifanc yn cael ei efelychu mewn data ar anawsterau addysgol ymhlith poblogaeth oedolion carchar. Mae ymchwil gan Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (Loucks 2007) yn arddangos fod gan 20-30% o droseddwy'r anghenion addysgol neu anableddau addysgol sy'n ymyrryd a'u gallu i ymdopi o fewn y system cyfiawnder troseddol ac o'r grŵp hon mae gan 7% IQ isel iawn o lai na 70.

Mae ymchwil Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) gan Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi dod o hyd i 6 o bobl, dynion ifanc rhan fwyaf, yn y carchar yn ymarferol anllythrennog ac annrhifog. Mae Rack (2005), sydd yn ysgrifennu ar drawiad anableddau cudd yn y boblogaeth carchar, yn amcangyfrif fod y nifer o achosion dyslecsia yn y boblogaeth carchar rhwng tair i bedair gwaith yr hynny yn y boblogaeth gyffredinol. Mae hefyd yn ystyried y bydd 50% o droseddwy'r angen cefnogaeth oherwydd eu sgiliau llythrennedd gwael a bod 2 mewn 5 ohonynt (20% o'r boblogaeth carchar) yn ymofyn cymorth dyslecsia arbenigol.

Nid ydyw data dibynadwy ar drawiad anawsterau dysgu ymhlith y boblogaeth carchar yn haws i'w ddarganfod na data ar y troseddwy'r ifanc: Mae Hall (2000) yn methu a dod o hyd i gonsensws mewn amcangyfrifon lefelau anableddau addysgol ymhlith troseddwy'r ifanc ac yn cyfeirio at ddadansoddiad meta Americanaidd sy'n rhoi amcangyfrif o 12.6% ac astudiaeth Brydeinig ble y canfuwyd ymchwilwyr dim ond 0.2% oedd ganddynt anabledd addysgol yn ôl eu hargraff glinigol.

6 Asesiad a Darpariaeth Addysg yn y System Cyfiawnder Ieuenctid: Egwyddorion Cyffredinol

Tra bod rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn darparu gwasanaethau mewnol (gweler adran 8.4), am y rhan fwyaf mae staff addysg yn cymryd rhan mewn eiriolaeth a broceriaeth darpariaeth briodol. Mae proses y broceriaeth yn gyffredinol yn cynnwys y camau canlynol: asesiad y person ifanc; cynllunio gyda'r person ifanc sut y gallwn gwrdd â'i anghenion ef/hi; cysylltu â'r asiantaethau/darparwyr perthnasol; gofyn am y ddarpariaeth/gwasanaeth sydd angen; eirioli ar ran person ifanc; trafod gyda'r darparwr/asiantaeth berthnasol i ddarparu'r gwasanaeth/darpariaeth; a rhoi gwybod i'r person ifanc a'i rhieni/gofalwr ef/hi ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir (EdComs, 2008; Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2004).

Darluniwyd canllawiau arfer da ar bob agwedd o'r ffordd y dylid darparu addysg o fewn y system cyfiawnder ieuenctid yn y cyhoeddiad, *Elfennau Allweddol Ymarfer Effeithiol - Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth* (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2008b). Crynhowyd darganfyddiadau allweddol archwiliad diweddar ynglŷn â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y system cyfiawnder ieuenctid (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2006a) yn y ddogfen yn y telerau canlynol:

- Ar ddiwrnod penodol mae rhwng 35% a 45% o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn derbyn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth lawn-amser;
- Mae'r Timau Troseddau Ieuenctid yn y sampl yn brwydro gyda materion mynediad difrifol i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth llawn amser. Dim ond 45% o'r bobl ifanc yn y sampl a gafodd mynediad i ddarpariaeth lawn-amser yn ystod wythnos y cyfrifiad, ac ni threfnwyd darpariaeth o gwbl i 28%.
- Roedd y bobl ifanc oedd yn arwyddocaol llai tebygol i dderbyn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth lawn-amser:
 - yn hŷn (yn enwedig y rheini yn 16 mlwydd oed)
 - yn ferched
 - wedi bod yn y system gofal
 - a ganddynt anawsterau llythrennedd neu rifedd
 - yn gysylltiedig â dedfryd fwy difrifol
 - yn fwy tebygol o ail-droseddu
- Dim ond tua hanner o'r rheini o oedran statudol ysgol a gofnodwyd fod ganddynt addysg lawn-amser wedi trefnu. I'r rheini yn y flwyddyn olaf o addysg orfodol, roedd cyfran lai fyth mewn addysg lawn-amser.
- Adroddwyd ymarferion amheus, er enghraifft absenoldebau astudio amhriodol neu anffurfiol, yn ogystal ag oediadau a diffyg darpariaeth addysgol amgen ar ran awdurdodau addysg leol yn y cyfrifiad.
- Mae darganfyddiadau'r cyfrifiad yn awgrymu fod yn bosibl fod y ffigurau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn oramcangyfrifon amlwg o'r gyfran o bobl ifanc yn derbyn darpariaeth lawn-amser. Roedd ffigurau chwarterol cyfatebol Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn arwyddocaol uwch na'r canrannau a darganfuwyd gan y cyfrifiad, i bob Tîm Troseddau Ieuenctid.

Bydd gweddill yr adran hon yn canolbwyntio ar droseddwyd wedi derbyn dyfarniad o fewn y system cyfiawnder ieuenctid. Fel y cyfeiriwyd ato yn flaenorol, mae'r adolygiad arbennig hwn yn canolbwyntio ar ymchwil a gasglwyd o fewn erthyglau cylchgronau a adolygwyd gan gyfoedion a chyhoeddiadau perthnasol eraill. Dylid rhoi cydnabyddiaeth, sut bynnag, tuag at ddefnyddioldeb rhai o gyhoeddiadau diweddar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

(EdComs, 2008; Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a, 2008a, 2008b). Mae'r rhain wedi profi i fod yn ffynonellau gwybodaeth ddefnyddiol iawn.

6.1 Asesiad yn y System Cyfiawnder Ieuencid

Dangosodd data a gasglwyd oddi wrth ASSET fod 42% o bobl ifanc yn tangyflawni yn yr ysgol; 41% yn triwanti'n rheolaidd; canfuwyd fod gan 27% anghenion arbennig, a 60% ohonynt wedi derbyn Datganiad AAA (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2003). Sut bynnag, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, nid ydy ansawdd yr asesiadau anghenion addysgol ASSET bob amser o'r ansawdd uchaf (Baker *et al*, 2003). Nid oedd asesiadau cychwynnol ar lythrennedd a rhifedd, er enghraifft, wedi llawn gwerthfawrogi'r broblem.

Yn wir, ni chafwyd yr adran Addysg yn ASSET ei gyflawni'n drwyadl yn gyson. Roedd gwybodaeth addysg statudol yn aml ddim yn bresennol. Dim ond gwybodaeth gyfyngedig ar addysg oedd ei hangen (Holtom & Jones, 2006) ac yn aml nid oedd gwybodaeth ar addysg statudol yn bresennol. Mae'r bylchau mewn gwybodaeth o'r dychweliadau ASSET yn arwyddol o'r cyn lleied o wybodaeth sydd gennym yn gyffredinol ynglŷn â throseddau ifanc gydag anableddau dysgu, a chafwyd eu disgrifio fel cwymp i mewn i'r "Ffindiroedd rhwng gwahanol fathau o ddarpariaethau gwasanaeth" (Hall, 2000, 278)

Mae'r broses asesu y dylai person ifanc llwyddo pan ydynt yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid - ynghyd â holl agweddau eraill ymarfer addysgol o fewn Timau Troseddau Ieuencid - wedi eu manylu yng nghyhoeddiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, *Elfennau Allweddol o Arfer Effeithiol - Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth* (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2008b). Mae'r broses asesu sy'n dilyn ASSET yn cynnwys pedwar cam: asesiad cychwynnol, asesiad diagnostig, asesiad ffurfiannol (asesiad dros ddysgu) ac asesiad crynodol (asesiad dysgu) (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2008b: 9-10).

Mae'r asesiad mwy arbenigol hwn yn ffurfio sylfaen Cynllun Dysgu Unigol person ifanc. Mae anghenion penodol ble y dylid rhoi sylw arbennig yn cynnwys: llythrennedd, iaith a rhifedd, anawsterau a/neu anableddau dysgu (syndrom Asperger, dyslecsia, anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio, a.y.b.); AAA; plant sy'n derbyn gofal; ac ethnigrwydd (2008b: 10-12). Yn ystod ymgynghoriadau ar gyfer yr astudiaeth hon ymholodd rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid ynglŷn â chysondeb dehongliadau drwy ddefnydd ASSET (trafodwyd ymhellach yn adran 8.2) sy'n atgyfnerthu ymchwil cynnar ble bu rhai sylwebyddion yn cwestiynu dibynadwyedd ASSET yn enwedig wrth amcangyfrifo lefelau problemau iechyd meddwl (Hagell 2002) ac yn canolbwyntio ar absenoldebau mewn rhai Timau Troseddau Ieuencid o staff arbenigol sydd angen i ganfod rhwystrau i ddysgu ac anghenion pobl ifanc (Holtom & Jones, 2006). Bydd ymchwil diweddarach gan Chitsabesan *et al* (2006) yn awgrymu nad oes yna le am hunanfodddhad yn nhermau sicrhau fod asesiadau clinigol cywir o'r boblogaeth cyfiawnder ieuencid yn cael eu cyflawni.

Gan fod gan nifer o bobl ifanc yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuencid anghenion cymhleth a lluosog, byddai asesiadau ac anghenion addysgol wedi eu cwblhau eisoes mewn meysydd eraill (plant 'sy'n derbyn gofal', er enghraifft). Mae yna dystiolaeth i awgrymu nad ydy'r wybodaeth o'r asesiadau yn ffeindio'i ffordd i'r system cyfiawnder ieuencid bob tro ac nid ydyw wedi ei gofnodi ar ASSET (Ecotec, 2001; Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a).

Canfuwyd nifer o'r rhwystrau i ddarparu gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) effeithiol a'u ddogfennu'n briodol (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a; EdComs, 2008). Amlygwyd rhai o'r rhain isod.

Er gwaethaf yr ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau fod pobl ifanc o oedran ysgol statudol yn cael eu lleoli mewn ysgolion neu ddarpariaeth lawn-amser arall (EdComs, 2008: 30), weithiau bydd yna rwystrau sy'n gwneud hyn yn anodd ei ymarfer. Er enghraifft, mae ysgolion a cholegau yn rhy hyblyg wrth dderbyn pobl ifanc yng nghanol blwyddyn ysgol (pan mae nifer o bobl ifanc yn cael ei rhyddhau o'r ddalfa). Mae'r ffordd yr ariennir ysgolion yn cyfrif am yr amharodrwydd hwn.

Mae rhai o'r problemau eraill a gafwyd eu dogfennu yn gysylltiedig â'r diffyg gallu corfforol yn y system (EdComs, 2008: 30-31): cyrsiau galwedigaethol prin (Cooper *et al*, 2005; Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a and 2006b); diffyg darpariaeth addas i bobl ifanc llai galluog (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a); mae nifer o Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cynnig lleoliadau rhan amser yn unig neu ni allent ddarparu addysg i'r oedranau oedran priodol (Stephenson, 2007; Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a); ac nid oes digon o staff ar gael ar gyfer addysg yn y cartref. Yn ychwanegol at hyn, nid oes yna ddigon o leoliadau ar gael gyda chyflogwyr (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a).

Mae hefyd materion ansoddol sydd angen gyfeirio atynt mewn rhai achosion. Nid ydy rhai darparwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn cwrdd â'r safonau derbyniol neu'n ddarparu gwasanaethau priodol (Cooper *et al*, 2005). Gallai hyn fod o ganlyniad i staff anaddas neu efallai heb eu hyfforddi'n ddigonol i ddelio gydag anghenion penodol ac ymddygiad pobl ifanc sy'n troseddu (Kendall *et al*, 2005; Spielhoffer *et al*, 2006). Mae darparwyr eraill yn syml yn ymwrthod gweithio gyda phobl ifanc sy'n troseddu (Foster, 2006; (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a a 2006b). I'w grynhoi, mae'r tir ble y disgwylir i weithwyr Addysgol mewn Timau Troseddau Ieuencid weithredu yn heriol dros ben.

6.2 Asesiad a Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yn y Mannau Diogel

Mae nifer o'r gwendidau asesu a chanfuwyd yn yr adran flaenorol yn berthnasol i osodiadau gwarchodol (Ecotec, 2001; Arolygiaeth Ei Mawrhydi, 2001; Arolygiaeth Ei Mawrhydi 2004; Holtom and Jones 2006). Weithiau'r rheswm am hyn ydy oherwydd na chafwyd gwybodaeth asesu ei gyflwyno i'r Adranau Addysg yn y sefydliadau, yn cynnwys Cynlluniau Addysg Bersonol, Cynlluniau Atgyfaniad Unigol a Datganiadau AAA (Ecotec, 2001; Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2006a). Darganfuwyd Talbot (2007) na chafwyd ystadegau ar garcharon gydag anawsterau ac anableddau dysgu eu cadw yn y mwyafrif o sefydliadau.

Ar lefel mwy cyffredinol, byddai'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu, er y gwelliannau mewn blynyddoedd diweddar, y darperir addysg a hyfforddiant yn wael i'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn y ddalfa (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn Lloegr a Chymru, 2001; Ecotec, 2002; Ofsted, 2006). Canfuwyd addysg gyrfaoedd fel ardal o wendid yn nhermau cynorthwyo'r trawsnewidiad o'r ystâd ddiogel i'r gymuned.

Y trawsnewidiad rhwng y ddalfa a'r gymuned, a *vice versa*, ydy un o'r prif sialensiau wrth weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc yn y system cyfiawnder Ieuencid. Mae hyn yn wir yn

arbennig yn nhermau rheoli a darparu addysg (EdComs, 2008; Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, 2006a). Gallai dedfryd o garchar byrdymor, er enghraifft, fod yn arbennig o anodd i reoli oherwydd mae amser yn brin i ddosbarthu cyrsiau ystyrlon ac achrededig (Ecotec, 2001). Oherwydd y niferoedd cymharol fawr o bobl ifanc wedi ei dedfrydu i'r ddalfa (Pwyllgor Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 2008; Cyngor Ewrop, 2008) mae yna hefyd pwysedd cynyddol i drosglwyddo pobl ifanc rhwng systemau gwahanol o fewn y Mannau Diogel, felly yn achosi amhariad ychwanegol i raglenni addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn gymaint â bod 75% o bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth llawn amser erbyn diwedd eu dedfrydau cymunedol, y ffigwr ar gyfer y rheini yn gadael y ddalfa yw 57% (EdComs, 2008: 46). Gallai hyn fod yn rhannol gysylltiedig â'r broblem o ddiogelu'r math o ddarpariaeth gyfatebol yn y gymuned a fyddai'n sicrhau gwasanaeth didor. Mae yna hefyd, anawsterau yn cynnal ymrwymiad pobl ifanc i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pan ydynt yn dychwelyd i'r gymuned. Mae'r systemau tra strwythurol sy'n nodweddiadol o'r mannau diogel mewn cyferbyniad â'r amgylcheddau dysgu llai strwythurol yn y gymuned.

Yng ngoleuni'r anfanteision lluosog a dylanwadwyd ar y bobl ifanc, dylid hefyd cadw mewn gofal y byddai eu hanghenion ailsefydlu ar eu rhyddhad fel arfer yn llym (Farrant, 2006; Goldson, 2002; Hagell, 2004; Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, 2006c). Bydd nifer o'r bobl ifanc a'u rhyddhawyd o'r ddalfa yn dychwelyd i'w teuluoedd ac amgylchedd cymdogaethau a gyfrannodd at eu hymddygiad troseddu gwreiddiol. Gallai fod yna anghenion arbennig ychwanegol na chyfeiriwyd atynt o fewn darpariaeth prif ffrwd. Mae materion camddefnyddio sylweddau, er enghraifft, yn amlygu pwysigrwydd agwedd gyfannol, gydag ymarferwyr iechyd ac addysg yn gweithio ar y cyd (Stephens & Lane Arnette, 2000).

7 Anghenion Cymorth Dysgu Ychwanegol: Plant a Phobl Ifanc

Er bod yr adran hon yn adrodd ar ymchwil sy'n berthnasol i AAA yn gyffredinol, nid ydy nifer o'r astudiaethau a nodwyd o angenrheidrwydd yn delio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid. Ystyrir y canfyddiadau, sut bynnag, i fod o berthnasedd. Ni fu'n bosibl i gyflwyno cyfrif trwyadl o'r amrediad eang o AAA y gallai troseddwy'r ifanc cyflwyno. Yn hytrach, cafwyd y meysydd hynny sy'n ymddangos i fod o berthnasedd mawr eu blaenoriaethu.

Er mwyn sicrhau eglurder. Cafwyd yr adran hon ei drefnu o amgylch themâu eang. Er hynny mi fyddai'n amlwg fod yna cysylltiadau agos rhwng nifer o'r themâu hwn.

7.1 Y Perthynas rhwng Anawsterau Cyfathrebu ac Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol:

Mae ymchwil presennol yn cyfeirio at fynychder anawsterau cyfathrebu heb ei ddarganfod - yn aml yn gysylltiedig â phroblemau llythrennedd - o ran plant a phobl ifanc a chanfuwyd o gyflwyno anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (BESD). Darganfuwyd astudiaeth ymchwil fach (Henneker, 2005) yn Surrey fod deg allan o un ar ddeg o blant (rhwng pump ac un ar ddeg mlwydd oed) mewn Uned Cyfeirio Disgyblion wedi profi cyfradd o anawsterau cyfathrebu. Roedd chwech o'r plant wedi cyflwyno anawsterau arwyddocaol ac felly wedi derbyn therapi lleferydd ac iaith am un tymor. O ganlyniad gwelwyd gwelliant mesuradwy a gwelwyd y plant yn ennill hyder. Er y byddai'n anghywir i hawlio y gallai darn o ymchwil ar raddfa fach or fath cael ei gyffredinoli, mae'r darganfyddiadau yn addo ac yn arwyddo'r angen am astudiaethau ymestynnol ychwanegol yn y maes.

Troseddwy'r Ifanc gydag Anableddau Dysgu: Datblygu Arfer Effeithiol:

Mewn astudiaeth Saesneg, adroddodd Chitsabesan *et al* (2006) allan o 301 o droseddwy'r ifanc (151 yn y ddalfa a 150 yn y gymuned) un allan o bump o droseddwy'r ifanc a chanfuwyd fod ganddynt anabledd dysgu (gydag IQ wedi'i asesu yn is na 70). Tra y byddai'r ffigurau yn ymddangos i fod yn uwch mewn rhai gwledydd countries (Papageorgiou & Vostanis, 2000), mae hyn er hynny yn cynrychioli cyfran arwyddocaol o droseddwy'r a'u dyfarnwyd o dan oruchwyliaeth statudol. Fel y cyfryw, roedd ganddo oblygiadau pwysig i'w hymarfer.

Defnyddir rhaglenni gwybyddol ymddygiadol llawer mewn gwaith gyda throseddwy'r ifanc ac oedolion. Sut bynnag, cydnabyddir fod gan bobl nid yn unig arddulliau dysgu gwahanol (Annison, 2006; Coffield *et al*, 2004), ond yn achos yr ifanc maent fel arfer yn y broses o aeddfedu a datblygu. Yn yr amgylchiadau dylid addasu rhaglenni gwybyddol ymddygiadol i oedran ac aeddfedrwydd y bobl ifanc cysylltiedig. Serch hynny, mewn rhai achosion, bydd gan bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol anableddau dysgu sy'n ymfyn addasiadau mwy eithafol i'r rhaglenni.

Mae Mishna & Muskat (2001), er enghraifft, yn trafod y ffordd y gellir cyfuno technegau gwybyddol ymddygiadol gydag egwyddorion cyd-gymorth mewn rhaglen gwaith grŵp i droseddwyr. Mae yna wersi gwerthfawr y gellir denu o'r ymchwil a chanllawiau arfer da a datblygwyd mewn perthynas ag oedolion gydag anableddau dysgu (Mason & Murphy, 2002; Sefydliad Anabledd Dysgu Prydain; Tîm Cymorth Gwerthfawrogi Pobl; a Gofal a Thriniaeth Troseddwyr gydag Anableddau Dysgu). Mae ymyriadau sy'n gyfeiriedig tuag at sgiliau ac anghenion penodol yn aml yn fwy addas na thriniaethau cosbol (Brier, 1994). I'r rheini yn cwblhau dedfryd o garchar, mae'r pwysigrwydd o ddarparu lleoliadau addysg/hyfforddiant addas ar ddiwedd dedfryd a (ble'n bosibl) cyflogaeth yn amlwg (Bullis & Yovanoff, 2002).

Uned Cyfeirio Disgyblion a Phoblogaethau 'Mewn Perygl':

Cafwyd y rhesymwaith dros sefydliad Unedau Cyfeirio Disgyblion ei rhoi dan sylw sawl gwaith (Hill, 1997; Garner, 1996). Mae'r perygl o ddod a phlant gydag amrywiaeth o anghenion, problemau ac anawsterau ymddygiadol at ei gilydd yn amlwg. Mae yna, er enghraifft, y perygl o greu isddiwylliant cynyddol ymhlith disgyblion a'u cyfeiriwyd ac felly'n atgyfnerthu proses o gydgyssylltiad gwahaniaethol (Sutherland & Cressey, 1974). Yn y fath sefyllfaoedd sefydliadol mae hefyd yna perygl y bydd ymarferwyr yn rhoi labeli diagnostig ychwanegol ac anaddas i'r rheini yn eu gofal. (Becker, 1963; Downes & Rock, 1979; Goffman, 1963; Schur, 1973).

Gellir cyfuno anghenion addysgol felly gydag ymddygiad tramgwyddus a gwrthgymdeithasol. Tra ei bod yn bwysig i gydnabod y gellir gorlethu manteision darparu hyfforddiant arbenigol a chefnogaeth i bobl ifanc gan y peryglon a grybwyllwyd eisoes, nid ydyw hyn yn cynrychioli dadl derfynol yn erbyn y fath arbenigedd. Yn hytrach, y rheswm amdano yw cydnabod bodolaeth peryglon a ddaw o unrhyw gyfres o drefniadau sefydliadol a sicrhau fod yna gydbwysedd rhwng darpariaeth arbenigaeth a prif ffrwd.

Archwiliodd Powis *et al* (1998) lefelau defnydd cyffuriau ac ymddygiad troseddol mewn sampl o blant ysgol 14-16 mlwydd oed. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 86 o bobl ifanc wedi'u gwahardd o'r ysgol yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion yn Ogledd-orllewin Llundain. Roedd y mwyafrif o'r sampl yn byw mewn teuluoedd unig riant, gyda bron i ddau treian heb un cyflog oedolyn o fewn un cartref. Roedd dros hanner y sampl hefyd o gymunedau ethnig lleiafrifol. Mae'r data'n awgrymu fod y rheini sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion yn cynrychioli grŵp risg mawr yn nhermau camddefnyddio cyffuriau a throseddu.

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd:

Mae ymddygiad heriol disgyblion, sydd yn aml ar yr olwg gyntaf o ganlyniad i broblemau economaidd-gymdeithasol yn y gymdogaeth leol, yn aml yn cael ei gyfuno gydag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd (ADHD). Tra bod cyd-destun cymdeithasol yn factor a dylid ei hystyried mewn unrhyw gyflwyniad achoseg ADHD, mae'n bwysig cydnabod fod gwella ymddygiad disgybl mewn ysgolion a leolir mewn cymdogaethau cythryblus cael ei daclau yn effeithiol heb atebolrwydd i'r llwybr AAA (Hayden *et al*, 2007).

Yn Abertawe, dangosodd ymchwilwyr sut y gallai staff ysgol a phobl ifanc cyfrannu mewn mentrau sy'n rhwystro troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (Haines & Case, 2004;

Case & Haines, 2004). Sut bynnag, mae'n bwysig i beidio cymysgu mentrau mor addawol gyda mesurau arbennig a ddylid eu cymryd mewn perthynas â phobl ifanc gydag AAA.

Mae Dodge (2007) yn adrodd ar hap-brawf gyda rheolydd llwybr carlam i atal anhwylderau seiciatrig. Sgriniodd yr astudiaeth, a arweiniwyd yn yr UDA, dros 9,594 o blant ysgolion meithrin mewn ysgolion, yn cynnwys pedwar safle a ystyrir i fod yn risg mawr yn nhermau tlodi a throsedd mewn cymdogaeth. O'r broses sgrinio gychwynnol, canfuwyd 891 o fod yn risg mawr neu gymedrol. Cafwyd eu neilltuo ar hap gan gyfresi ysgolion cyfatebol i ymyrraeth neu amodau cymdeithasol. Roedd rhaglen ymyrraeth deng blynedd o Raddau 3-9 yn cynnwys hyfforddiant rheolaeth ymddygiad rieni, hyfforddiant sgiliau ymddygiad gwybyddol/sgiliau cymdeithasol plant, hyfforddiant darllen, ymweliad cartref, mentora a chwricwlwm dosbarth cyffredinol.

Dangosodd y canlyniadau y cafwyd diagnosis i anhwylderau ymddygiad amrywiol, yn cynnwys ADHD ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mwy cyffredinol, eu gostwng ymhlith y rheini a'u haseswyd fel anhwylder risg mawr. Mae'n ymddangos bod y rhaglen wedi bod yn effeithiol ar draws ffactorau rhyw, ethnigrwydd a phreswylfa drefol/gwledig. Mae'r ymchwil yn amlygu'r angen am ymyrraethau cyson ar draws continwwm ysgol gartref. Amlinellwyd y rôl allweddol o hyfforddiant riant a chymorth teulu mewn llenyddiaeth ehangach (Mattox, & Harder, 2007; Rogers et al, 2003). Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Cymru Bangor wedi adrodd yn bositif ar werthusiadau o'r Rhaglen Hyfforddiant Sylfaenol Y Blynyddoedd Rhyfeddol (Jones, et al, 2007)

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sgrinio cynnar gan Dodge (2007) ac eraill. Thema gylchol ydyw yn y llenyddiaeth ac fe gafwyd ei adleisio gan Gresham *et al* (2000), Cassidy *et al* (2001) a Henin *et al* (2007) o ran adnabod bodolaeth cyd-forbidrwydd mewn rhai achosion (e.e., ADHD, problemau ymddygiad, amodau seiciatrig a seicolegol, yn cynnwys anhwylder deubegynol a seicopathi). Sut bynnag, mae'r ffordd y cafwyd sgrinio cyffredinol ei gyflenwi yn ôl at yr ysgol yn fater a'u hystyriwyd gan Tymms & Merrell (2006) ym Mhrifysgol Durham.

Nid ydyw'n syndod nad ydy canfod plant ADHD heb gyngor eglur yn gysylltiedig yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil yn cael fawr o effaith. Sut bynnag, mae cyngor a ellir eu defnyddio ar lefel yr ysgol yn cael effaith positif ar agweddau ac ymddygiadau disgyblion, er nid yn angenrheidiol yn nhermau gwella lefelau cyrhaeddiad. Mae'n ymddangos fod yr effaith mwyaf yn cael ei gyflawni ar lefel athro. Meddai Tymms & Merrill yn eu casgliad, yn hytrach na chefnogi rhaglen sgrinio gyffredinol, bydd yn fwy cost effeithiol i ddarparu ysgolion gyda chyngor yn seiliedig ar ymchwil ar sut i gysylltu gyda phlant disylw, ergydol a gorfywiog yn y ddwy flynedd gyntaf yn yr ysgol. Mae hyn, sut bynnag yn sicr yn ardal ble mae yna gryn ddadl.

Yn absenoldeb sgrinio cynnar systematig plant, amlinellwyd rôl ganolog athrawon o fewn addysg prif ffrwd i ganfod ADHD ac anhwylderau eraill. Beth a ddarganfyddir allan o'r llenyddiaeth yw y bydd canfyddiad athrawon o 'ymddygiad gwael/heriol' a ADHD yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar eu hyfforddiant, gwybodaeth ynglŷn ag amgylchiadau teulu'r plentyn a chyd-destun cymdeithasol a diwylliannol ehangach o fewn ble yr ydynt yn dysgu (Chenglai *et al*, 2002; Holst, 2008; Hong, 2008; Koss, *et al*, 2006; Kyunghwa, 2008; Snider *et al*, 2003). Y penbleth beirniadol i athrawon ac ymarferwyr eraill sy'n cael cysylltiad gyda phlant yw a ddylent eu cyfeirio at arbenigwr neu beidio (gyda'r gweithrediad olaf yn arwain at warthnodaeth). Serch hynny mae'r angen am godi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith athrawon, gweithwyr proffesiynol eraill a rhieni/gofalwyr yn amlwg.

Fel y cofnodwyd uchod mae'n ymddangos fod yna cytundeb eang am yr angen i rannu gwybodaeth ac arbenigedd gydag athrawon a rhieni/gofalwyr y rheini a'u haseswyd o gael ADHD ac anhwylderau ymddygiad eraill. Mae hyn yn gysylltiedig â nid yn unig ymyraethau ymddygiadol sydd fel arfer yn gweithio'n dda mewn sefyllfaoedd ysgol (DuPaul & Weynandt, 2006), ond hefyd gwybodaeth fwy manwl ynglŷn â meddyginiaeth (Carlson, *et al*, 2007; Stroh, *et al*, 2008). Mae'n bwysicach fyth fod gan athrawon dealltwriaeth o effeithiau meddyginiaethau ar ymddygiant plant (Einarsdottir, 2008; Snider *et al*, 2003). Er gwaethaf pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effeithiau meddyginiaethau ar ymddygiad plant, dylid gwneud y pwynt fod effeithiolrwydd priodol ymyraethau meddyginiaethol a difeddyginiaethol mewn perthynas â gwella perfformiad academiaidd a chymdeithasol yn ymofyn ymchwil pellach (Trout, *et al*, 2007).

Mae Hughes (2007) yn dadlau oherwydd bod ADHD yn gyflwr bio-seicolegol mae'n ymofyn dull 'gwasanaethau integredig', yn defnyddio arbenigedd oddi ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Sayal *et al* (2006) yn dadlau a threchgu o blaid ragor o gefnogaeth i staff addysgol oddi wrth weithwyr proffesiynol y gwasanaeth iechyd. Mae hyn yn cynnwys personél ond nid yn unig gwasanaethau seiciatrïg a seicolegol (Baumgartner *et al*, 2005), ond hefyd maethiad. Yn wir, gweler diet fel ffactor mewn ymddygiad plant a phobl ifanc (Portwood, 2006). Mae'r dull bio-seicolegol hefyd yn cydnabod y gallai'r cyd-destun cymdeithasol ehangach cael effaith yn nhermau'r cychwyniad a gwellhad ADHD (Brandau & Pretis, 2004).

Tra nad ydy'r ymchwil *On Track* (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ar Yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau, 2004, 2007) wedi rhoi ffocws neilltuol ar anhwylderau ymddygiad, mae'n werth nodi yr ystyriwyd ymyraethau cymdeithasol ehangach a gwaith rhyngasiantaethol i fod yn effeithiol i boblogaethau mewn perygl tangyflawniad addysgol, gwaharddiad o'r ysgol a throseddau. Tra bod yr ymchwil *On Track* wedi canolbwyntio'n brin ar ardaloedd o amddifadiad mawr, mae'r darganfyddiadau hyn yn ategu at ganlyniadau ymchwil a arweiniwyd ledled y sbectrwm cymdeithasol ehangach.

Troseddwyr Ifanc ac Anghenion Iechyd Meddwl:

Gwnaed cyfeiriad yn flaenorol tuag at sefyllfa archolladwy pobl ifanc yn y system cyfiawnder iechyd gyda phroblemau iechyd meddwl. Darganfuwyd Barrett *et al* (2006) fod defnydd y gwasanaeth iechyd meddwl yn isel, er gwaethaf lefelau uchel o anghenion. Roedd hyn yn arbennig o wir yn y gymuned. Yn yr amgylchiadau mae'n rhesymol i gasglu fod angen gwell rôl i wasanaethau iechyd meddwl o fewn y gymuned.

Mae angen i ddarpariaeth addysgol, yn y cyfamser, cael ei hysbysu gan mewnbwn grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Mae, felly yn fater o bryder fod adroddiad diweddar (Y Comisiwn Gofal Iechyd ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2007) wedi dangos fod traean o Dimau Troseddau Ieuenctid yn Lloegr a Chymru heb fodd o gysylltu a gweithiwr iechyd meddwl dynodedig. Er hynny, dylwn cydnabod y bu gwelliant i Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Mae rhai grwpiau pobl ifanc y mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn cysylltu â nhw yn fwy tebygol o ddioddef salwch meddwl. Mae'r rheini a chefnidir mewn gofal cyhoeddus yn achos perthnasol (Dimond & Minsch, 2002). Dylai'r peryglon mawr hwn cael ei chanfod gan ymarferwyr.

Cwblhawyd gwaith yn yr UDA yn gysylltiedig â'r perthynas rhwng ethnigrwydd, cyfiawnder ieuenctid a phatrymau o atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl (Breda, 2003). Sut

bynnag, dylwn gydnabod y dylai ymchwil pellach cael ei gyflawni yn y maes hwn yn Lloegr a Chymru.

Yn y Deyrnas Unedig, fel mewn gwladwriaethau cenedlaethol eraill, mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cynnwys darpariaeth triniaeth a chymorth ar gyfer problemau difrifol camddefnyddio sylweddau. Mae'r prif sialensiau yn gysylltiedig â gweithio gyda throseddwr yn cynnwys: datrys materion athronyddol o ran triniaeth cymhellol a lleihau niwed (Hunt & Stevens, 2004; Norland *et al*, 2003); sefydlogi amgylchiadau personol camddefnyddwr sylweddau difrifol sydd yn aml yn anhrefnus (Buchanan, 2004); ac ymroddiad medrus technegau cyfweld ysgogiadol (Clark, 2005; Fuller & Taylor, 2003; Hawkins, 2002; Miller & Rollnick, 2002). Mae ymchwil o'r UDA yn awgrymu y gallai ymyraethau penodol diwylliannol fod yn effeithiol dros ben gyda throseddwr ifanc (Cervantes *et al*, 2004).

8 Negeseuon Allweddol o Ymarfer

Ochr yn ochr â'r adolygiad llenyddiaeth ymgynghorwyd nifer o reolwyr Timau Troseddau leuenctid yn ystod cyfarfod Cymru gyfan ble casglwyd eu barn ar AAA. Canfuwyd nifer o'r pryderon a godwyd yn y llenyddiaeth archwiliad ac mae'r adran hon hefyd yn crynhoi'r darganfyddiadau hwnnw.

8.1 Adnabod ac asesu

Mae'r cyfrifoldeb am adnabod a chefnogi'r rheini a ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig yn aros gyda'r Awdurdod Addysg Leol a nododd y rheolwyr Timau Troseddau leuenctid fod nifer o bobl ifanc gydag AAA yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid heb ddatganiad AAA. Dangosant hefyd fod yna nifer o sialensiau i gael asesiad i berson ifanc gan weithwyr proffesiynol addas. Gwelwyd diffyg cynhwysedd ac adnoddau o fewn Awdurdodau Addysg Leol i ddarparu cefnogaeth gysylltiol fel broblem penodol.

“Os canfuwyd pawb (gydag AAA) gan dderbyn datganiadau yna byddai ein bywydau yn hawdd gan fyddai gennym rywbeth i weithio gyda”

Mae'r dyfyniadau trwy'r adran hon oddi wrth reolwyr YOT

Gweler yr amser a gymerir i gwblhau datganiadau AAA a'r niferoedd cynyddol pobl ifanc mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol fel enghreifftiau o faterion gallu a wynebir mewn Awdurdodau Addysg Leol. Nododd rhai rheolwyr YOT fod y diffyg darpariaeth a gynigir i gynig cymorth i bobl ifanc sydd efallai ganddynt AAA heb ei ddarganfod eto yn meddwl efallai na fyddai asesiad. Nododd rhai rheolwyr YOT amharodrwydd ymhlith rhai Awdurdodau Addysg Leol i gyflwyno datganiadau AAA oherwydd pwysedd i gwrdd â'r targedau ar gyfran pobl ifanc gyda datganiadau. Esboniwyd hefyd mewn nifer o Awdurdodau Lleol roed yn amhosibl datgan dros ymddygiad, ac roedd yna bryder fod yna pwysedd mewn rhai awdurdodau lleol i leihau'r nifer o bobl ifanc â datganiad.

Nododd reolwyr YOT nad ydynt yn casglu gwybodaeth gyfun ar y niferoedd o bobl ifanc gydag AAA neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) yn eu hardal. Cyflawnodd rhai Timau Droseddau leuenctid astudiaethau ar raddfa fach yn y gorffennol i archwilio maint ALN yn eu hardal. Er enghraifft, defnyddiodd YOT Caerdydd offeryn Awstralaidd i brofi tua 100-110 o bobl ifanc o'r Timau Troseddau leuenctid a chymharu'r canlyniadau gyda gwybodaeth am yr Awdurdod Addysg Leol gyfan. Darganfuwyd yr astudiaeth hon fod 70% o'r rheini gyda ALN heb ei chydabod yn flaenorol o gael yr anghenion hyn. Roedd YOT Rhondda Cynon Taf wedi apwyntio myfyriwr seicoleg addysg i gyflawni dadansoddiad o anghenion ALN yn y boblogaeth leol. Mi wnaeth yr astudiaeth canfod nifer o bobl ifanc a ganddynt anghenion llythrennedd a rhifedd.

“Mae gen i fynediad i Seicolegydd Addysg drwy'r Awdurdod Addysg Leol a gallaf wneud cais am asesiad ond, mewn ymarfer, mae'r adnoddau yn annigonol i gwblhau asesiad tra bod y person ifanc o dan oruchwyliath.”

Gweithiwr proffesiynol, Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, De Cymru

Nododd y Timau Troseddau leuenctid a darparodd tystiolaeth fod ennill mynediad i Seicolegydd Addysg yn fater heriol oherwydd yr adnoddau. Nododd un cynrychiolwr YOT tra bod darpariaeth yn bodoli mewn colegau a darparwyr hyfforddiant i edrych ar faterion

AAA, mae cael pobl ifanc i gyrchu'r ddarpariaeth yn anodd, yn enwedig ble yr ydynt wedi troi eu cefnau ar unrhyw amgylchedd dysgu yn gyfan gwbl.

8.2 Asesiadau (ASSET / ONSET, Cynllun Dysgu Unigol ILP)

Nododd rheolwyr YOT fod ASSET o ddefnydd cyfyngedig wrth ganfod pobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). Mae'r ffurflen ASSET yn cael ei gwblhau gan ymarferwyr YOT efallai nad oes ganddynt arbenigedd mewn AAA ac felly mae unrhyw anghenion cymorth a chanfuwyd ar y ffurflen (ac unrhyw gysylltiad rhwng ALN i ymddygiad troseddol) yn fater goddrychol yn dibynnu ar ganfyddiad yr ymarferwr.

Bu canfyddiadau ar sut i gwblhau ffurflenni ASSET yn gwahaniaethu cryn lawer rhwng Timau Troseddau Ieuenctid yn sut y sgoriwyd y ffurflenni gan ymarferwyr. Bu rhai rheolwyr yn gweld y broses sgorio ASSET fel asesiad i weld os oedd cysylltiad uniongyrchol yn bodoli rhwng materion addysgol a risg person ifanc o droseddu. Yn y cyfamser mae eraill yn canfod perthynas mwy anuniongyrchol ac yn teimlo dylai fod y broses sgorio yn gysylltiedig i anghenion y person ifanc mewn ystyr cyfannol.

Roedd yr ail grŵp yn ymwybodol o'r dystiolaeth ymchwil ar y cysylltiadau rhwng y rheini ddim mewn addysg (neu'n cael problemau mewn addysg), allgau cymdeithasol ac ymddygiad troseddol. Mewn ymarfer, roedd hyn yn golygu y byddai rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn sgorio person ifanc yn uchel yn nhermau anghenion addysgol, tra byddai eraill ddim yn sgorio'r mater yn uchel. Er pob barn wahanol, teimlodd pob rheolwr YOT fod natur oddrychol ASSET yn cyfyngu gwerth y ffurflenni fel offeryn i adnabod neu fonitro ALN. Defnyddir offer eraill ar gyfer asesiadau addysgol.

"Peidiwch â darllen gormod i mewn i ASSET [ar gyfer astudiaeth AAA]. Nid asesiad o anghenion ydyw gan rywun sydd yn gymwys i'w gwneud yn iawn. Asesiad goddrychol ydyw"
Rheolwr YOT

Cofnododd Estyn hefyd nad ydy ffurflenni ASSET yn cael eu llenwi'n drwyadl gan holl staff YOT, nid ydynt bob amser yn cael ei adolygu'n gyson ac ni ddefnyddir y wybodaeth yn gyson fel ffordd effeithiol o fesur datblygiad addysgol pobl ifanc. Mae ansawdd y ffurflenni ASSET mae gweithwyr YOT manau diogel yn derbyn o dimau troseddau ieuenctid yn rhy newidiol ac nid ydyw bob amser yn cynnwys digon o wybodaeth ynglŷn â chefnidir addysgol y person ifanc. (Estyn (2006).

Mynegodd rheolwyr YOT pryder at y nifer o sefydliadau gwahanol yn cyflawni asesiadau o bobl ifanc, yn enwedig y rheini sydd mwyaf agored i niwed (e.e. efallai y cafwyd eu hasesu gan Gwricwlwm Amgen; YOT; darparwr hyfforddiant). Roedd cymorth unfrydol ar gyfer cysyniad cynllun dysgu unigol, a fyddai'n lleihau'r cyfanswm o asesiad ac ailasesiad a gyflawnwyd gan asiantaethau lluosol er roedd yna amheuaeth o ran sut y gall y fath cynllun cael ei weithredu ar draws asiantaethau lluosol.

"Y broblem ydy nad ydyw sefydliadau yn ymddiried mewn asesiadau sefydliadau eraill - dyna pam yr ydych yn diweddu gyda phobl ifanc yn cael eu hasesu a'u hailasesu"
Rheolwr YOT

Cofnododd rheolwyr YOT y gallai materion ymddygiadol weithiau cuddio materion addysgol ymhlith pobl ifanc, gydag asesiadau yn canolbwyntio ar y flaenorol yn hytrach na'r diwethaf. Nododd sawl rheolwr pwysigrwydd, yn enwedig o fewn ETE, o bobl ifanc yn cael ei gweld fel 'plant yn gyntaf, troseddwy'r yn ail' ac nid hyn oedd yr achos bob amser.

Teimlodd rheolwyr YOT bod cael mynediad i asesiadau addysgol, yn cynnwys asesiad o arddulliau dysgu, yn bwysig i'r ymarferwyr YOT hynny sy'n rheoli rhaglenni ymddygiad troseddol i bobl ifanc (e.e. rhaglenni gwybyddol ymddygiadol).

8.3 Cysylltiadau gydag addysg prif ffrwd

Mae asesiadau a'u defnydd yn cyfrannu tuag at y rhwystrau yn ei le wrth rannu gwybodaeth rhwng Timau Troseddau leuenctid a'u partneriaid. Mae hyn yn broblem gyffredinol ar draws addysg, ac mae Estyn yn adrodd nad ydy darparwyr bob amser yn derbyn gwybodaeth gywir ac amserol ynglŷn â chyn cyflawniadau dysgwyr gydag AAA. Maent yn nodi fod hyn yn fwy tebygol o ddigwydd ble mae dysgwyr yn symud yn aml a bod hyn yn effeithio rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed gydag AAA, yn cynnwys disgyblion wedi'i wahardd, plant sy'n derbyn gofal, troseddwy'r ifanc a dysgwyr anabl yn symud o ysgol i ddarpariaeth Ôl-16 (Estyn 2007).

Mae'r rhan fwyaf o Dimau Troseddau leuenctid yn ei ffeindio hi'n anodd cyrchu'r holl wybodaeth sydd angen arnynt ynglŷn ag arddull dysgu plentyn neu berson ifanc ac yn arbennig maent yn cael anhawster i gael y wybodaeth o unedau cyfeirio disgyblion ar ddatganiadau AAA (Estyn 2008). Hefyd nid ydyw athrawon yn y manau diogel yn derbyn gwybodaeth dda, ac yn arbennig, datganiadau o AAA o addysg flaenorol a gosodiadau hyfforddiant pobl ifanc. (Estyn 2005).

Nodwyd bod yr amser a gymerodd i adeiladu perthnasau effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol addas mewn Awdurdodau Addysg Leol yn rhwystr mewn nifer o Dimau Troseddau leuenctid yn ystod ymgynghoriad. Tra gallai Timau Troseddau leuenctid mwy, trefol goresgyn materion drwy greu unedau gyda AAA neu arbenigedd addysg o fewn YOT (e.e. athrawon eilaidd, Unedau Cyfeirio Disgyblion) i helpu cysylltu gydag ysgolion a gweithwyr proffesiynol addas mewn Awdurdodau Addysg Leol, roedd eraill wedi wynebu ragor o anawsterau yn gysylltiedig â hyn. Teimlodd y Timau Troseddau leuenctid bod yr unedau wedi helpu adeiladu perthnasau rhwng Timau Troseddau leuenctid ac Awdurdodau Addysg Leol, yn aml oherwydd roedd yr unedau yn cynnwys staff LEA a YOT.

Roedd y rheolwyr i gyd yn teimlo fod partneriaethau gydag Awdurdodau Addysg Leol yn hanfodol a'i bod, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi gweithio'n dda. Nid oedd Partneriaethau gydag ysgolion bob amser mor syml:

"Mae rhai [ysgolion] yn wrthweithiol oherwydd adnoddau prin... nid ydynt yn barod i ddefnyddio treth y pen [cyllid] mewn modd anturiaethus"

"Ein problem gyda phlant dan 16 mlwydd oed yw bod gennych bobl ifanc sydd wedi bod o amgylch y system ac yn aml yn cael eu gweld yn 'broblemus' gan nifer o athrawon. Bydd staff yn dweud wrthoch eu bod wedi'u canfod yn y babanod a cynradd ond nid ydynt erioed wedi cyrraedd y pwynt ble gafwyd AAA ei hystyried. Felly maent wedi mynd trwy'r ysgol fel cyflawnwyr isel."

Mewn rhai ardaloedd cymerwyd mesurau penodol i helpu sicrhau partneriaeth yn gweithio i oresgyn y problemau o adnabod y rheini gydag AAA a'u darparu gyda chefnogaeth addas. Yng Ngwynedd / Ynys Môn er enghraifft sefydlwyd fforwm i ddod a rheini a ganddynt gyfrifoldebau lluosog yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant troseddwr ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys staff ETE o'r YOT, swyddogion o'r awdurdodau lleol (yn cynnwys seicolegydd addysgol), cynrychiolwyr o Sefydliadau Addysg Bellach (FEI) a Gyrfa Cymru. Mae'r fforwm wedi canolbwyntio ar anghenion troseddwr ifanc ac yn rhannu gwybodaeth yn gysylltiedig ag achosion unigol ac yn gwella prosesau o gyfeirio troseddwr ifanc gyda AAA i ddarpariaeth addas.

Roedd rheolwyr YOT wedi croesawu'r symudiad i strategaethau atal ac ymyrraeth gynnar ond gwelsant y byddai angen symudiad diwylliannol yn nhermau cadw pobl ifanc yn yr ysgol ble bynnag mae'n bosibl. Nododd rhai rheolwyr YOT eu bod nawr yn adnabod y rheini mewn perygl o droseddu yn gynharach fyth ac felly yn gallu eu cadw mewn addysg prif ffrwd.

Gweler y trawsnewidiad rhwng addysg orfodol, ble mae gan yr LEA cyfrifoldebau, a gweler darpariaeth Ôl-16 fel pwynt pwysig yn nhermau'r partneriaethau rhwng sefydliadau. Gwelwyd mynediad hyfforddiant i blant ôl-16 mlwydd oed fel sialens benodol a theimlodd rheolwyr YOT y dylai'r rheini yn comisiynu Addysg Bellach a Dysgu seiliedig ar waith (WBL) rhoi mwy o bwyslais ar ddarparwyr i gyfeirio at y gallu i weithio gyda throseddwr ifanc gyda AAA drwy'r broses comisiynu.

Gan adlewyrchu'r pryderon hon, mae Estyn wedi adrodd ar ddiffyg dylanwad Timau Troseddau leuenctid.

Nid yw gweithwyr addysg Timau Troseddau leuenctid bob amser yn cael digon o ddylanwad dros ysgolion ac Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau lleoliadau addysgol amser llawn ar gyfer pobl ifanc ac nid oes digon o gyfnewid gwybodaeth dda rhwng yr ystâd ddiogel, Timau Troseddau leuenctid a lleoliadau addysgol. Mae'r cyswllt gwael hwn yn arwain at ddiffyg parhad ac anawsterau o ran cynllunio'n effeithiol ar gyfer pobl ifanc (Estyn 2005).

Mae Estyn hefyd yn cadarnhau fod ysgolion yn aml yn amharod i gynnig lleoedd i blant a phobl ifanc a gafwyd eu gwahardd, eu troseddu a/neu sydd wedi bod yn y ddalfa (Estyn 2008).

Mae problemau mewn rhannu gwybodaeth yn thema gyffredin a heb ei gyfyngu ar y cysylltiadau rhwng Timau Troseddau leuenctid ac awdurdodau lleol. Mae Estyn yn adrodd nad ydy Timau Troseddau leuenctid a'r ystâd ddiogel yn gweithio'n ddigon agos gyda'i gilydd i ddarparu rhyddhad cynlluniedig ac aifynediad uniongyrchol addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac mae'r trefniadau ar gyfer cyfnewidfa gwybodaeth rhwng y gweithiwr addysg YOT a staff addysgol y manau diogel yn rhy newidiol. Nid oes gan Dimau Troseddau leuenctid digon o wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r cyrhaeddiad ac asesiad a gyflawnwyd o fewn yr ystâd ddiogel (Estyn, 2006).

8.4 Darpariaeth

Mae nifer o reolwyr YOT yn wynebu anawsterau wrth broceri darpariaeth addysg i bobl ifanc oedd o fewn y system cyfiawnder ieuencid. Mewn rhai Awdurdodau Addysg Leol, roedd ysgolion a darparwyr hyfforddiant yn anfodlon dros ben i dderbyn pobl ifanc o'r sector cyfiawnder ieuencid. Roedd hyn wedi achosi pwysedd ar staff YOT yn archwilio opsiynau gyda nifer o ddarparwyr gwahanol a phwysedd i'r person ifanc a wariodd mwy na'r cyfnod angenrheidiol allan o addysg Mewn sawl Awdurdod Addysg Leol mae diffyg gallu i roi mynediad i staff YOT at arbenigedd addas (e.e. seicolegwyr addysgol) ynghyd â phwysau ar alluoedd mewn darpariaeth addysgol amgen yn meddwl yn aml nad ydyw troseddwy'r ifanc gydag AAA yn cael eu hasesu gan yr LEA yn dilyn adnabyddiaeth o'r angen am hyn gan yr YOT. Fel y cyfryw nid ydyw nifer o bobl ifanc yn cyrchu eu hawliau oherwydd diffyg gallu a darpariaeth gwasanaethau i bobl ifanc gydag AAA.. Y bobl ifanc hyn o amgylch 16 mlwydd oed oedd y mwyaf problemus i'r YOT yn nhermau darganfod darpariaeth.

Gwelodd nifer o reolwyr YOT diffyg lleoliadau hyfforddiant i bobl ifanc mewn trawsnewidiad o'r system cyfiawnder ieuencid fel sialens yn wynebu'r sector. Codwyd pryderon bod dim ond darpariaeth ar gael am 6 mis o'r flwyddyn gan fod yr ysgolion hynny am y disgyblion hynny sydd ddim yn eistedd arholiadau allan o'r ysgol yn ystod y Pasg fodd bynnag nid oes yna leoliadau hyfforddi tan fis Medi.

Mae natur wledig a'r iaith Gymraeg yn cyflwyno sialensiau ychwanegol. Teimlodd reolwyr YOT mewn ardaloedd gwledig yn benodol fod lleoedd mewn darpariaeth hyfforddiant yn fater heriol dros ben

“O safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru mae digon o lefydd gennym ond gydag un darparwr felly os mae person ifanc yn cael ei gwahardd o'r darparwr dyno fo”

Cafwyd y diffyg darpariaeth Gymraeg mewn sefydliadau troseddwy'r ifanc ei hamlygu yn ystod ymgynghoriadau gyda rhai rheolwyr YOT, gydag enghreifftiau o bobl ifanc sydd ddim gallu cyrchu llyfrau neu ddeunyddiau Gymraeg ei hiaith ynghyd â gorfod dilyn y cwricwlwm Saesneg. Mae hyn yn atgyfnerthu darganfyddiadau o astudiaeth gynharach a archwiliodd pryderon tîm troseddau ieuencid (o ardal gyda chyfran uchel o siaradwyr Gymraeg) y gwnaeth pobl ifanc Gymraeg ei hiaith a dedfrydwyd i garchar yn dioddef gwahaniaethu (Hughes and Madoc-Jones 2005). Nodwyd hefyd fod y diffyg parhad i wasanaeth hefyd yn gymwys i Yrfa Cymru.

“Mae yna faterion enfawr yn gysylltiedig â diffyg darpariaeth addysg iaith Gymraeg yn y ddalfa”

Codwyd pryderon hefyd gyda golwg ar briodoldeb ymarferol deddfwriaeth newydd arfaethedig sy'n ymofyn fod Awdurdodau Addysg Leol yn atebol am ddarparu adnoddau i droseddwy'r ifanc iddynt barhau gyda'u haddysg. Tra croesawyd yr egwyddorion tu ôl i'r ddeddfwriaeth, roedd yna bryderon y byddai AALI yn brwydro i ddarparu adnoddau ychwanegol. Mynegodd reolwyr yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, pryder fod y niferoedd o bobl ifanc yn eu hawdurdod lleol yn y ddalfa yn amrywio cryn lawer dros amser a gallai'r amrywiadau hyn cael effaith mawr ar yr adnoddau sydd ei hangen i'w darparu gyda'r darpariaeth addysgol briodol tra eu bod yn y ddalfa.

Roedd y materion cynhwysedd wedi arwain rhai rheolwyr YOT i chwilio am ffynonellau arian amgen i leoliadau hyfforddiant ar lefel lleol ac mewn rhai achosion, wedi arwain timau YOT i ddarparu'n uniongyrchol. Yn wir mae'r materion o ganfod a darparu i bobl ifanc gydag AAA yn gymaint o rwystredigaeth i'r Timau Troseddau Ieuencid fod rhai ohonynt wedi cymryd y dull o ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr yn uniongyrchol.

Mae Caerdydd, er enghraifft, wedi sefydlu uned dysgu a 'Panel Darpariaeth Eithriadol' i gynllunio darpariaeth i ddisgyblion wedi'i wahardd a ganddynt pum ymgynghorwr Gyrfa Cymru fewnol. Mae Castell-nedd Port Talbont a Casnewydd yn y cyfamser wedi agor Uned Cyfeirio Disgyblion dau ddiwrnod yr wythnos gyda staff Timau Troseddau Ieuencid ac Awdurdod Addysg Leol. Roedd sawl reolwr YOT yn teimlo y byddai angen hyblygrwydd cynyddol o ran ariannu darpariaeth addysg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er enghraifft, bu rhai rheolwyr yn defnyddio adnoddau o gronfeydd hyfforddiant sgiliau sylfaenol i ddarparu hyfforddiant i droseddwyr ifanc.

"Mae'r methiant addysgol ymhlith y grŵp yr ydym yn edrych arno yn hynod o uchel" Rheolwr YOT

Dangosir adroddiadau archwilio diweddar ddiffygion mewn rheolaeth a chynllunio. Yn ôl Estyn, nid ydy awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud digon i sicrhau fod Timau Troseddau Ieuencid yng Nghymru yn diogelu addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth lawn-amser i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid. Heblaw hyn nid ydy Awdurdodau Addysg Leol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i ddarparu 25 awr o addysg dan oruchwyliaeth neu weithgaredd i bobl ifanc wedi'i wahardd pob wythnos. Nid oes gan nifer o Fyrddau YOT cynlluniau i wella perfformiad Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ac nid oes un o'r Timau Troseddau Ieuencid yng Nghymru yn cwrdd â tharged ETE Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (er bod y targed hwn yn newid yn 2009/2010 i well mesur perfformiad). Nid oes gan y rhan fwyaf o blant sy'n troseddu Cynllun Dysgu Unigol (ILP) sydd angen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Nid ydy awdurdodau lleol yn mesur canlyniadau yn ddigon da i ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (Estyn 2008).

Sylwodd un gweithiwr ETE bod darganfod cyfleoedd dysgu yn y gwaith i bobl ifanc yn arbennig o heriol.

"Mae darpariaeth yn wael gan nid oes yna adnodd annibynnol neu gyllid ar gyfer cymorth ychwanegol i hyfforddiant ôl-16 gan ddarparwyr dysgu ac mae'r gwasanaethau hwn weithiau yn ffeindio anawsterau lleoli gyda chyflogwyr, pobl ifanc gydag anawsterau dysgu sy'n gymhleth oherwydd ymddygiad heriol. Mae adran cynaliwedigaethol y coleg Addysg Bellach Lleol wedi ei gynllunio ar gyfer darpariaeth i bobl ifanc gyda AAA ond nid ydyw'n addas i'r rheini sydd am gyflawni dysgu yn y gwaith."

Gweithiwr Proffesiynol Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, De Cymru

Atgyfnerthwyd y pwynt hwn gan Dîm Troseddau Ieuencid Saesneg a sylwodd, tra bod gan golegau Addysg Bellach mwy'r cymhwysedd i ddelio gyda phobl ifanc gyda AAA, mae pobl ifanc yn aml yn digalonni gan amgylchedd coleg mawr a allai eu 'hatgoffa gormod o'r ysgol'. Nodwyd ei bod yn bosibl fod gwell gan bobl ifanc gyda AAA amgylchedd mewn darparwr hyfforddiant llai ond gall diffyg gallu AAA arbenigol yn y darparwr hyfforddiant gwneud y mater yn anodd.

8.5 Hyfforddiant

Sylwodd reolwyr YOT fod hyfforddiant am weithio gyda phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ad-hoc ac nid yn gyfundrefnol ac (er enghraifft gwahoddiadau i

ddigwyddiadau un diwrnod; mynediad i lyfrau), yn gysylltiedig ag ymarferwyr arbenigol a chyfredinolwyr. Roeddent hefyd yn teimlo'n gryf bod y gallu i dderbyn cyngor ac arbenigedd o weithwyr proffesiynol priodol (e.e. seicolegwyr addysg) o'u Hawdurdod Addysg Leol yn flaenoriaeth fwy na hyfforddi staff unigol.

Yn ychwanegol at hyn, roedd reolwyr YOT yn teimlo na fyddai'n ymarferol i staff YOT ddod yn arbenigwyr mewn meysydd amrywiol er enghraifft AAA neu iechyd meddwl ond y byddai'r manteision o gael mynediad haws at weithwyr proffesiynol priodol yn fawr. Mae gan Rongda Cynon Taf enghraifft o arfer da ble mae gan eu tîm mynediad ar seicolegwyr addysg am hanner diwrnod yr wythnos (e.e. mae ganddynt yr un dyraniad ag ysgol). Sut bynnag, nododd nifer o'r Timau Troseddau leuenctid gwledig na fydd y gallu hwn ar gael i'w Awdurdodau Addysg Leol nhw.

"Yn hytrach na hyfforddi staff YOT, mae'n fwyaf manteisiol i chi sicrhau mynediad da at seicolegwyr addysg"

"Mae'r ETE yn brocer o wasanaeth, felly ni fydd ganddynt neu angen y lefel hynny o wybodaeth"

"Y mae'n gysylltiedig ag ansawdd eich perthnasau gyda gwasanaethau eraill. Os allwch chi drefnu hynny yna bydd gennych lwybrau at ddarpariaeth"

Yn nhermau hyfforddiant penodol yn gysylltiedig â AAA, sylwodd reolwyr AAA fod rhai ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar anhwylder sbectwm awtistiaeth. Nododd eraill y cynigwyd cyrsiau byr achlysurol gan ddarparwyr amrywiol, yn aml wedi ei leoli yn Llundain, ond nid oes yna dull systematig i hyfforddi staff yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth AAA.

"Mae yna ddigwyddiadau ar adegau, rydych yn derbyn pamffled am gwrs, fel arfer yn Llundain, ond does dim amser gennych i fynychu"

Nododd nifer o reolwyr YOT y byddai ragor o hyfforddiant i ddeall arddulliau dysgu ffafriedig o fantais ac roedd rhai (e.e. Rhaglen Goruchwyllo ac Arolygu Dwys Gwent drwy KYPE - Keeping Young People Engaged funding) yn cynnig hyfforddiant mewnol gan ddefnyddio athrawon. Roedd cefnogaeth i gynlluniau dysgu unigol (ILP), a oedd yn ymddangos fel ei bod yn lleihau'r nifer o asesu ac ailasesu, er roedd yna amheuaeth gyda golwg ar sut y gellir gweithredu'r fath cynlluniau ar draws asiantaethau lluosog a pa un ai oedd yna arbenigedd digonol i gwblhau ILP neu asesu arddull dysgu unigolyn.

Roedd pob YOT yn teimlo mai gweithio mewn partneriaeth gyda staff LEA arbenigol oedd y dull orau o gyrchu arbenigedd priodol. Sut bynnag, er bod gan nifer fach o Dimau Troseddau leuenctid lefelau da o fynediad i arbenigwyr addysgol yn yr LEA, roedd y rhan fwyaf yn teimlo na allent gael mynediad digonol i'r fath arbenigwyr.

"Fel model, yn hytrach na hyfforddi'r holl staff YOT i fod yn arbenigwyr wrth asesu pobl ifanc; y mae hanner diwrnod yr wythnos i gyrchu seicolegwyr addysg yn yr LEA mor werthfawr. Gallai unrhyw aelod o staff YOT a ganddynt bryderon mynd yno a'i drafod a chael mynediad i gyngor"

